# CYNLLUN SGILIAU A CHYFLOGAETH GOGLEDD CYMRU












www.northwaleseab.co.uk

2016

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru























www.northwaleseab.co.uk

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# CYNNWYS

Cyflwyniad i'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol 02
Mewn Cydweithrediad â 03
Crynodeb Gweithredol 05
Tros olwg o Ogledd Cymru 09

Y Galw yng Ngogledd Cymru 18
Galw'r sector flaenoriaeth: Ynni a'r Amgylchedd 22
Galw'r sector flaenoriaeth: Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch 27
Galw'r sector flaenoriaeth: Adeiladwaith 30
Galw'r sector flaenoriaeth: Creadigol a Digidol 34
Galw'r sector flaenoriaeth: Iechyd a Gofal Cymdeithasol 37
Galw'r sector flaenoriaeth: Twristiaeth a Lletygarwch 40
Galw'r sector flaenoriaeth: Bwyd a Diod 42

Y Cyflenwad yng Ngogledd Cymru 44
Cymwysterau Rhanbarthol 45
Addysg Uwch 46
Addysg Bellach 48
Gyrfaoedd 49
STEM 50
Prentisiaethau 52
Dysgu yn y Gweithle 53

Mesur Perfformiad 54

Argymhellion 55

CYNNWYS

## AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH A IWAN THOMAS

Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol – Sgiliau & Chyflogaeth
iwanThomas@gwynedd.gov.uk

Mae ffrwd waith Sgiliau a Chyflogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) wedi cael ei mabwysiadu a'i chydnabod gan Lywodraeth Cymru fel un o dair o'i Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ledled Cymru.

Mae'r ffrwd waith Sgiliau a Chyflogaeth yn cydlynu ac yn cefnogi ar lefel ranbarthol fel rhan o'i dyletswyddau swyddogol yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol swyddogol Gogledd Cymru, ac mae'n ategu ac yn cefnogi ffrydiau gwaith eraill BUEGC. Drwy weithio fel 'Tîm Gogledd Cymru', y weledigaeth gyffredinol yw datblygu ardal hyderus a chydlynol gyda thwf economaidd cynaliadwy, sy'n manteisio i'r eithaf ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'i chysylltiad ag economïau Pwerdy Gogledd Lloegr ac Iwerddon.




Ein bwriad yw gwella ac uwchraddio sylfaen sgiliau'r ardal a sicrhau twf cyflogaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella darpariaeth sgiliau uwch yn y clystyrau economaidd gwerth uchel a mynd i'r afael â diweithdra. Wrth i'r galw am sgiliau ddod yn rhan fwy blaenllaw o'n system addysg, a gyda blaenoriaethau cyflogwyr a sectorau twf yn cael eu hadlewyrchu yn y cwricwlwm, mae angen cymorth ar y cyflogwyr yn yr ardal er mwyn gallu cynnig darpariaeth sgiliau sy'n diwallu eu hanghenion.

Drwy weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus ac yn y sector preifat, rydyn ni'n parhau i weithio tuag at nod o fabwysiadu dull effeithiol ac egnïol o ymwneud â sgiliau sy'n ysbrydoli dysgwyr o bob oedran; a drwy ein darparwyr rhanbarthol, rydyn ni'n cynnig darpariaeth dysgu o ansawdd rhagorol ac amgylcheddau sy'n ymateb i anghenion economaidd y presennol a'r dyfodol.

Mae sgiliau a chyflogaeth yn ffactorau sy'n cyfrannu at flaenoriaethau ffrwd waith eraill y rhanbarth yn rhinwedd gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd cael cyfleoedd i'n cadwyni cyflenwi; y galw am ragor o fuddsoddiad yn ein trafnidiaeth a'n seilwaith; sicrhau cyfleoedd i gael rhagor o waith trawsffiniol a chydweithio drwy gyrff fel Pwerdy Gogledd Lloegr, Partneriaethau Menter Lleol a Chynghrair Mersi Dyfrdwy; yn ogystal â hybu rhagor o fuddsoddi o'r tu allan ac ehangu'r rhanbarth, gan adeiladu ar ein safonau a'n hamrywiaeth.

"Mae economi ranbarthol a marchnad lafur Gogledd Cymru wedi'u cysylltu'n annatod â Swydd Gaer a Chilgwri, ac mae'n wych gweld bod y realiti hwn yn cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol, a bod maniffesto ar gyfer sgiliau gyrfaol trawsffiniol yn cael ei argymell. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen i ni sicrhau bod ein plant a'n myfyrwyr yn cael cyngor cadarn ac ymarferol ynghylch y cyfleoedd a'r llwybrau gyrfa sydd ynghlwm â'n heconomi ranbarthol a thrawsffiniol. Mae angen i ddarpariaeth cyngor gyrfa gyd-fynd ag ôl troed y galw am waith a chyfleoedd yn ein heconomi ledled Gogledd Cymru, Mersi a Dyfrdwy."

NWBC Cyngor Busnes Gogledd Cymru North Wales Business Council


AELODAETH
Y BARTNERIAETH SGILIAU
RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
LLYWODRAETH CYMRU X2
CORFF BUSNES Y CYFLOGWR
CYFLOGWR (YNNI)
CYFLOGWR (GWEITHGYNHYRCHU)
CYFLOGWR (ADEILADU)
CYFLOGWR (CREADIGOL A DIGIDOL)
CYFLOGWR (IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL)
CYFLOGWR (TWRISTIAETH A LLETYGARWCH)
CYFLOGWR (BWYD A DIOD)
LLYW.LEOL
TRYDYDD SECTOR X2
GYRFA CYMRU X1
DARPAR WYR HYFFORDDIANT X2
CYDLYNWYR YMGYSYLLTIAD A CHYNNYDD
ADRAN PHENSIYNAU A'R GANOLFAN BYD GWAITH X1
14 - 19 X1
AB X2
AU X3
YSGOLION (GWE) X1

Ein nod ar gyfer y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol hwn, ynghyd â'r agenda rhanbarthol ehangach sy'n cael ei hysgogi gan yr economi a'r Cynllun Twf arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru, yw gwella ac uwchraddio sylfaen sgiliau'r ardal a sicrhau twf cyflogaeth.

Dros y ddeng mlynedd nesaf, bydd hyn yn cael ei wneud drwy ganolbwyntio'n benodol ar wella darpariaeth sgiliau uwch yn y clystyrau economaidd gwerth uchel, yn ogystal â mynd i'r afael â diweithdra drwy ddatblygu'r gwaith o gyflwyno rhaglenni integredig a chydlynol a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn.

Wrth i'r galw am sgiliau ddod yn rhan fwy blaenllaw o'n system addysg ar bob lefel, a gyda blaenoriaethau cyflogwyr a sectorau twf yn cael eu hadlewyrchu yn y cwricwlwm, bydd angen rhagor o gymorth ar y cyflogwyr yn yr ardal er mwyn gallu cynnig darpariaeth sgiliau sy'n diwallu eu hanghenion.

Mae angen i ni sicrhau bod gan y rheini sy'n chwilio am waith y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael mynediad at gyflogaeth gynaliadwy, yn ogystal â chefnogi'r rhai sydd eisoes mewn swyddi i ddatblygu eu potensial er mwyn i ni barhau i fod yn rhanbarth cystadleuol.

## HERIAU RHANBARTHOL AR GYFER SGILIAU A SWYDDI

**Mynd i'r afael â diffyg cynllunio ar gyfer olyniaeth gan gyflogwyr ynghyd â gweithlu sy'n heneiddio yn y prif sectorau**

**Cadw pobl ifanc mewn swyddi cynaliadwy yn y rhanbarth ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau**

**Datblygu model brocera sgiliau rhanbarthol y gellir ei addasu sy'n seiliedig ar lwyddiant presennol Carchar Gogledd Cymru**

**Hyrwyddo pynciau a sgiliau cysylltiedig â STEM a sgiliau sy'n ateb galw'r cyflogwyr a chynyddu nifer y bobl sy'n ymgymryd â nhw**

**Cynnig atebion sgiliau rhanbarthol ar gyfer prosiectau trawsffurfiol ochr yn ochr â hyrwyddo'r ardal leol**

**Cefnogi datblygu cynaliadwy ac arloesi yn ein sectorau twf i ddarparu llwybrau deniadol at yrfa**

Nid yw ein rhagolwg blaenorol yng Nghynllun Sgiliau Rhanbarthol 2015 wedi newid, sef creu 40,000 o swyddi newydd yn ystod y ddeng mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae oedi yn y gwaith o gyhoeddi gofynion sgiliau a disgwyliadau o ran dyletswyddau'r swyddi sy'n ffurfio ein prosiectau seilwaith a thrawsffurfiol allweddol yn yr ardal yn parhau i fod yn her i bartneriaid wrth gynllunio'n effeithiol yr hyfforddiant sgiliau a'r cymorth sydd ei angen i ateb y galw ac i helpu i hybu a hyrwyddo'r cyfleoedd a'r disgwyliadau.

CRYNODEB GWEITHREDOL

## DATBLYGIADAU'R BARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL ERS 2015...

**"TRAC 1124"**
Dyfarnu £17m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i brosiect sgiliau rhanbarthol "TRAC 1124" er mwyn cefnogi'r rhai sy'n wynebu'r risg o ymddieithrio

**"SEE"**
Dyfarnu £16m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i brosiect sgiliau rhanbarthol "SEE" er mwyn cefnogi cyflogwyr a'u gweithwyr hyd at Lefel 3

**"NWBA"**
Dyfarnu £4m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i brosiect sgiliau rhanbarthol Academi Busnes Gogledd Cymru (NWBA) er mwyn cefnogi hyfforddiant Lefel 4+

**"AD-TRAC"**
Prosiect sgiliau rhanbarthol AD-TRAC wrthi'n paratoi cynllun busnes terfynol i roi cymorth i'r rhai 16-24 oed sydd â rhwystrau sy'n eu hatal cymryd rhan mewn naill ai addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

**"OPUS"**
Prosiect sgiliau rhanbarthol "OPUS" wrthi'n paratoi cynllun busnes terfynol i gefnogi'r rhai 25+ sy'n ddi-waith yn yr hirdymor gyda llawer o rwystrau i gyflogaeth

**BUEGC** mewn partneriaeth â Lend Lease yn cael 'Gwobr Arwain a Datblygu Pobl' yng ngwobrau Rhagoriaeth Adeiladu Cymru am eu gwaith yn cefnogi brocera sgiliau wrth ddatblygu Carchar Gogledd Cymru, a byddant yn cynrychioli Cymru yng Ngwobrau Cenedlaethol Rhagoriaeth Adeiladu'r DU.

Archwiliad rhanbarthol o STEM mewn ysgolion yn cael ei gynnal i archwilio'r gweithgareddau hyd yma, ac i lywio'r gwaith o fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a chysondeb y ddarpariaeth honno

Gan weithio gyda chyflogwyr sector preifat a darparwyr sector cyhoeddus, mae cyfres o adnoddau STEM wedi'u datblygu ar-lein ac ar bapur sy'n canolbwyntio ar y diwydiant yn rhanbarthol ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 5 a 6, rhieni ac ymarferwyr. Caiff hyn ei lansio ym mhob ysgol gynradd ledled Gogledd Cymru yn 2016

Dadansoddiad rhanbarthol o'r ddarpariaeth NEET 16-24 i lywio a nodi bylchau yn y gefnogaeth sydd ei hangen i baratoi pobl ifanc ar gyfer swyddi

Creu a gweithredu'r "Academi Dysgu ac Uchelgais" gyntaf yng Nghymru ar safle Carchar Gogledd Cymru. Prosiect a noddwyd ar y cyd gan BUEGC, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Lend Lease ar y cytundeb y bydd y cyfleuster yn cael ei roi yn nwylo BUEGC ar ôl i'r cam adeiladu ddod i ben er mwyn ei ddefnyddio wedyn i gefnogi partneriaid gyda sgiliau hyrwyddo o fewn prosiectau eraill yn y rhanbarth

Gwybodaeth am y Farchnad Lafur wedi'i diweddaru a'i chynnal ar gyfer cyflogwyr a darparwyr drwy adroddiadau, y cyfryngau cymdeithasol a ffeithluniau i'w defnyddio a'u hyrwyddo gan amrywiaeth o gynulleidfaoedd

Gan weithio mewn partneriaeth â'r sector Twristiaeth Awyr Agored yn yr ardal, rydym wedi casglu tystiolaeth i gyfiawnhau pam mae angen cymwysterau Lefel 4 ychwanegol o fewn y sector fel rhan o gynnig i ddarparu llwybrau gyrfa cynaliadwy a blaengar o fewn y prif sector twf hwn yng Ngogledd Cymru

Darparu dadansoddiadau rhanbarthol ar gyrhaeddiad pynciau STEM ym mhob ysgol yng Ngogledd Cymru mewn ymateb i geisiadau gan

Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod llif gwaith BUEGC a'i bartneriaid yn swyddogol fel prif Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

Datblygu ac arloesi parhaus o ran cyfleoedd gwaith sy'n gysylltiedig â sgiliau trawsffiniol a ledled Cymru gyfan ar y cyd â phartneriaid

Mae ymgysylltiad a chefnogaeth darparwyr a chyflogwyr wedi bod yn rhan sylfaenol o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni uchod ers llunio'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth diwethaf yn 2015.


Roedd y prif dargedau yng Nghynllun 2015 yn cynnwys datblygu a chyflawni rhaglen o brosiectau sgiliau rhanbarthol a fyddai'n llwyddo i gael cyllid o Ewrop.

O'r pum prosiect sydd wedi'u datblygu, mae tri ohonynt eisoes wedi cael oddeutu £40 miliwn, a disgwylir y bydd y ddau brosiect arall gyda'i gilydd yn cael dros £10 miliwn ychwanegol ar gyfer y rhanbarth.

Mae cydweithio'r partneriaid ar y cyd yn rhanbarthol, gyda chefnogaeth ffrwd waith Sgiliau BUEGC, wedi dangos bod gwaith rhanbarthol presennol yn gweithio i gefnogi'r ddarpariaeth ranbarthol ac wedi cael ei ddatblygu a'i wella er budd cyfranogwyr, cyflogwyr a darparwyr fel ei gilydd.

## SECTORAU Â BLAENORIAETH


YNNI A'R AMGYLCHEDD


DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH


ADEILADU

## SECTORAU TWF


CREADIGOL A DIGIDOL


IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL


TWRISTIAETH A LLETYGARWCH


GWEITHGYNHYRCHU BWYD A DIOD

Mae rhagor o fanylion yn y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol sy'n nodi bod gallu symud sgiliau ar draws ffiniau yn rhan bwysig o'r gwaith o ystyried sgiliau a chyflogaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r echelin dwyrain – gorllewin yn rhan allweddol o economi a marchnad lafur Gogledd Cymru, ac felly ni fydd terfynau gweinyddol yn rhwystr gan fod economi Gogledd Cymru wedi'i gysylltu'n annatod â Gogledd Orllewin Lloegr.

Mae'r deg argymhelliad sydd yn y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol wedi'u seilio ar ofynion ein hagenda sgiliau ranbarthol, a'i gallu i gefnogi'r cyflenwad sgiliau sydd ei angen ar gyfer twf economaidd Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Felly mae'r prif bethau sy'n gyrru ein hargymhellion yn y Cynllun wedi'u seilio ar elfennau o sgiliau a chyflogaeth allweddol sy'n cefnogi gweledigaeth twf a strategaeth ar gyfer economi Gogledd Cymru.

**Darparu adnoddau perthnasol o fewn strategaeth ranbarthol sy'n cynyddu nifer y bobl sy'n astudio pynciau STEM i gefnogi ein sectorau allweddol a'n sectorau twf ledled Gogledd Cymru**

**Nodi'r galw o ran sgiliau a gweithio gyda darparwyr ym maes AU ac AB a'r trydydd sector i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac uwchsgilio'r gweithlu rhanbarthol**

**Parhau i ddatblygu mentrau a phrosiectau i hyrwyddo llif sgiliau ar draws darparwyr addysg a hyfforddiant i gefnogi blaenoriaethau economaidd rhanbarthol**

**Darparu prosiectau a rhaglenni penodol sydd â'r nod o gefnogi ein sectorau allweddol a'n sectorau twf drwy ddefnyddio a hyrwyddo canolfannau rhagoriaeth a hybiau penodol**

**Datblygu maniffesto sgiliau trawsffiniol sy'n canolbwyntio ar ariannu gwasanaeth cyngor gyrfa trawsffiniol i gefnogi llif y ddarpariaeth sgiliau**

Mae'r casgliad o argymhellion yn y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol ar gyfer 2016 yn parhau i adeiladu ar y llwyddiannau yng Nghynllun 2015, ac yn helpu i osod seiliau i ddyheadau o ran darpariaeth mewn perthynas â sgiliau a chyflogaeth, fel rhan o ardal hyderus a chydlynol gyda thwf economaidd cynaliadwy sy'n manteisio i'r eithaf ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel, a'i chysylltiad ag economïau Pwerdy Gogledd Lloegr ac Iwerddon.

## CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

Dyma grynodeb o'r deg argymhelliad arfaethedig yn y Cynllun. Mae rhagor o wybodaeth am y deg argymhelliad, ynghyd â gweithredoedd a cherrig milltir, wedi'u cynnwys yng nghorff y brif ddogfen.

**Darparu'r cyfleusterau a'r arbenigedd angenrheidiol yn y rhanbarth i greu dyhead, a pharatoi'r bobl leol drwy roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwyster iddynt gael swyddi cynaliadwy o fewn ein sectorau allweddol a'n sectorau twf**

**Datblygu dull rhanbarthol o ymdrin â brocera cyflogaeth a sgiliau, y gellir ychwanegu anghenion a gofynion pwrpasol ato yn unol â phrosiectau trawsffurfiol penodol**

**Datblygu "Pecyn Cymorth o Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer Gogledd Cymru" mewn ymateb i ddisgwyliadau'r farchnad lafur a'r galw gan gyflogwyr yn y dyfodol, gan ddyfarnu un dystysgrif ranbarthol achrededig a gefnogir gan y cyflogwr**

**Datblygu maniffesto sgiliau gyrfa trawsffiniol sy'n seiliedig ar un asiantaeth yrfa drawsffiniol i hyrwyddo hylifedd sgiliau ac arbenigedd mewn perthynas â'n marchnadoedd llafur a'r rhai sy'n astudio ac yn dysgu**

**Datblygu ymagwedd Gogledd Cymru at STEM a fydd yn helpu i gyfleu, ysbrydoli a hyrwyddo cyfle cyfartal, gan adlewyrchu'n glir a chefnogi anghenion cyflogwyr, dysgwyr a darparwyr ar bob lefel**

**Parhau i nodi dulliau priodol o gefnogi sgiliau Cymraeg yn y gweithle a hefyd ymgysylltiad ehangach safbwyntiau cyflogwyr ar yr agenda sgiliau ledled Gogledd Cymru**

## TROS OLWG O OGLEDD CYMRU

**697,000**
O BOBL AR DRAWS CHWE SIR

**£20bn**
BILIWN O WARIANT POSIB AR BROSIECTAU

**40,000**
AMCANGYFRIFIR Y BYDD 40,000 O SWYDDI NEWYDD DROS 10 MLYNEDD

Yn seiliedig ar effaith bosib prosiectau sydd ar y gweill fel Carchar Gogledd Cymru (Carchar Ei Mawrhydi Berwyn) yn Wrecsam; potensial posib Wylfa Newydd ar Ynys Môn; a thwf a datblygiad cyflogwyr presennol ledled yr ardal - yn bennaf y rheini yn ein tair Ardal Fenter, a safleoedd busnes allweddol fel Stad Ddiwydiannol Wrecsam - drwy ddefnyddio ein marchnad lafur fedrus bresennol ac yn y dyfodol, i helpu i greu dyheadau ac i wella cynhyrchaeth, cystadleuaeth a thwf ledled Gogledd Cymru.

Mae'r sgiliau a'r buddiannau economaidd posib a geir o wario £20 biliwn ar brosiectau allweddol, a hynny'n ychwanegol at yr hyn a restrir uchod, yn cynnwys Parc Eco Orthios, Cyfleuster Adennill Ynni Parc Adfer, ac ymestyn Porth y Gogledd, yn golygu y bydd cyfleoedd a heriau yn wynebu busnesau lleol a'r farchnad lafur.

Er mwyn i'r holl brosiectau mawr yng Ngogledd Cymru lwyddo, mae angen gweithlu cymwys sydd â'r sgiliau priodol yn y rhanbarth cyn cychwyn ar y gwaith, yn ogystal â datblygu atebion cynaliadwy er mwyn helpu i sicrhau bod materion ynghylch disodli ar sail sgiliau a sectorau yn cael eu cynllunio'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion lleol a rhanbarthol. Bydd methu â darparu'r rhain yn arwain at sgiliau a llafur o'r tu allan i Ogledd Cymru yn cymryd cyfleoedd cyflogaeth posib ar gyfer y gwaith allweddol hwn, a bydd yn cael effaith negyddol ar ein heconomi ranbarthol.

**66.82%**
O FUSNESAU COFRESTREDIG YN CYFLOGI HYD AT 4 PERSON

**2.78%**
O FUSNESAU COFRESTREDIG YN CYFLOGI 50+ O BOBL

**29,875**
O FUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU AR GYFER TAW LEDLED GOGLEDD CYMRU


Er bod 29,875 o fusnesau wedi cofrestru ar gyfer TAW yn y rhanbarth, mae 58,100 o fentrau yng Ngogledd Cymru ac felly dylid cydnabod bod ail-sgilio'r gweithlu presennol yr un mor bwysig â denu pobl newydd i'r farchnad lafur os ydyn ni am barhau i fod yn gystadleuol ar y cyd. Yr her ar gyfer y rhanbarth yw sut rydyn ni am wneud addysg yn berthnasol i anghenion gwirioneddol gweithwyr yn ein marchnad lafur bresennol, gan barhau i ddatblygu'r unigolion hynny nad ydynt eto'n rhan o'r economi.

TROS OLWG O OGLEDD CYMRU

## SECTORAU Â BLAENORIAETH



YNNI A'R AMGYLCHEDD



DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH



ADEILADU

## SECTORAU TWF



CREADIGOL A DIGIDOL



IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL




TWRISTIAETH A LLETYGARWCH



GWEITHGYNHYRCHU BWYD A DIOD

Mae'r sector cyhoeddus a'r sector masnach yn ddau o brif gyflogwyr y rhanbarth o ran gweithwyr. Mae'r sector cyhoeddus yn benodol yn un o'r cyflogwyr mwyaf yng Ngogledd Cymru, ac yn enwedig mewn siroedd fel Gwynedd. Gallai prinder sgiliau yn y sector iechyd roi'r sector ehangach ledled y rhanbarth mewn sefyllfa fregus, yn enwedig os na ellir recriwtio'r nifer angenrheidiol o staff cymwys yn lleol, yn ogystal â materion cyllidebau o ganlyniad i fesurau darbodaeth.




Gyda phoblogaeth o 694,000 ledled Gogledd Cymru ar hyn o bryd, mae heriau yn wynebu'r rhanbarth er bod dyfnder sgiliau clir mewn sawl sector.

Mae'r boblogaeth oed gweithio bresennol (rhwng 16 a 64 oed) wedi lleihau'n naturiol o 427,000 yn 2008 (62.5% o'r boblogaeth gyfan) i 418,000 (60.2%) ar hyn o bryd; ac, yn yr un cyfnod, mae'r boblogaeth hŷn dros 65 oed wedi cynyddu o 132,100 (19.3% o'r boblogaeth gyfan) i 152,100 (21.9%).


Mae'r cynnydd yn oedran cyfartalog y boblogaeth sy'n gweithio yn golygu bod galw am bobl i ailgyflenwi'r gweithlu er mwyn llenwi swyddi a diwallu anghenion cyflogwyr a'r farchnad lafur, ond hefyd i fynd i'r afael â chyfleoedd cyflogaeth newydd mewn prosiectau rhanbarthol blaenllaw, yn ogystal â pharhau i ehangu ein sectorau twf yng Ngogledd Cymru.



Mae'r risg sy'n wynebu'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru yn gyfuniad o boblogaeth sy'n heneiddio'n naturiol, diffyg cynllunio olyniaeth gan gyflogwyr, cynnydd mewn pobl wedi ymddeol yn mewnfudo, a'r heriau sydd ynghlwm â chadw pobl ifanc ar ôl gorffen eu hastudiaethau.

Nodwyd yn y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru yn 2015 fod potensial i greu 40,000 o swyddi ledled y rhanbarth yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf, ac nid yw hyn wedi newid yng nghynllun 2016.

Os ydyn ni fel rhanbarth am ddarparu'r sgiliau i fynd i'r afael â'r cyfleoedd cyflogaeth hyn yn llwyddiannus, bydd angen gwneud rhagor o waith yn ystod y 2-3 blynedd nesaf i wella sgiliau'r gweithlu presennol yng Ngogledd Cymru er mwyn cefnogi'r prif brosiectau a chadwyni cyflenwi, yn ogystal â mynd i'r afael â phroblemau disodli posib. Bydd meithrin cysylltiadau agosach rhwng cyflogwyr a'n darparwyr addysg yn hollbwysig er mwyn gwneud hyn, gan fynd i'r afael ag unrhyw risgiau posib o ran y pryder nad oes gan ein rhanbarth y sylfaen sgiliau priodol i ddenu rhagor o fuddsoddiad gan fusnesau.




Dylai Gogledd Cymru gryfhau ei sgiliau a manteisio i'r eithaf arnynt er mwyn cadarnhau ac ehangu cyfleoedd cyflogaeth a dal ati i gynyddu cyfrannau'r boblogaeth oed gweithio sy'n cael eu cyflogi.

Mae gan y rhanbarth gryfderau ym maes gweithgynhyrchu, ac er bod hynny'n bennaf yn ardal y Gogledd Ddwyrain o amgylch Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, mae yna gyflogwyr llai yn y sector allweddol hwn ledled Gogledd Cymru.

Mae cryfderau yn y rhanbarth hefyd o ran y sector ynni , yn ogystal â chwmnïau a chyflogwyr ym meysydd dosbarthu, trafnidiaeth a chyfathrebiadau.

Mae'r sectorau twf a nodwyd yng Nghynllun blaenorol 2015 yn dal yr un fath, a rhagwelir y bydd cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau Iechyd a Gofal; Creadigol a Digidol; Twristiaeth a Lletygarwch; a Chynhyrchu Bwyd a Diod.

Yn ogystal â'u rhagolygon twf eu hunain o ran gwella sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth, bydd prosiectau trawsffurfiol fel Wylfa Newydd yn cael effaith ar bob sector twf a nodwyd. Er mai prosiect sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y sector ynni a niwclear ydyw, ni ddylid diystyru'r effaith bosib y gallai ei chael ar sectorau twf cysylltiedig ehangach yn y cadwyni cyflenwi ledled y rhanbarth.

Mae pryder cynyddol o ran a fydd y diwydiant adeiladu yn gallu bodloni gofynion y prosiectau trawsffurfiol a phrosiectau seilwaith eraill sydd ar y gweill. Heb gael amserlenni clir a gwybodaeth am niferoedd y swyddi a'r sgiliau gofynnol gan ddatblygwyr, mae'n anodd cynllunio'n effeithiol a hybu'r gwaith o ddatblygu sgiliau a chyfleoedd yn y sector.

Gall rhagor o oedi o ran cyhoeddi a rhannu gofynion sgiliau a'r disgwyliadau o ran swyddogaethau ein prosiectau seilwaith a thrawsffurfio yn y rhanbarth niweidio'r sector adeiladu yng Ngogledd Cymru, o safbwynt capasiti sgiliau a'r gallu i fod yn gystadleuol er mwyn ymateb yn effeithiol.

Bydd yn fwyfwy o her i'r ddau goleg Addysg Bellach yn y rhanbarth ddenu rhagor o fyfyrwyr i'w cyrsiau hirsefydlog sy'n ymwneud ag adeiladu ac amgylchedd adeiledig er mwyn manteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol. Mae hyn o ganlyniad i fyfyrwyr, cyfoedion a rhieni sy'n gyndyn o symud ymlaen nes eu bod yn gweld cadarnhad y bydd cyfleoedd mewn prosiectau arfaethedig yn cael eu gwireddu.


Bydd y wybodaeth angenrheidiol ar gael yn ystod 2016 a bydd yn cynorthwyo ymyriadau priodol er mwyn datblygu'r gweithlu yn y sector adeiladu yn y dyfodol. Bydd hefyd yn cynorthwyo darparwyr a chyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr yn y sector i drefnu darpariaeth a hyfforddiant sgiliau yn unol ag amserlenni clir. Bydd hyn yn cyfrannu'n helaeth at y gwaith o ddatblygu sgiliau lefel uwch, yn ogystal â phrentisiaethau ar bob lefel, gan gynnwys rhagor o waith hybu prentisiaethau lefel uwch lle bo hynny'n briodol a phan fo angen gwneud hynny. Mae prentisiaethau wedi bod yn rhan allweddol o ddatblygiad busnes mewn cwmnïau fel TATA Steel yn Shotton. O fan hyn y darparwyd y dur ar gyfer adeiladu'r 87 llawr yn y Shard yn Llundain; gan sicrhau mai Shotton oedd un o safleoedd mwyaf arloesol a phroffidiol TATA yn y DU.

**57%**
O GYFLOGWYR O'R FARN BOD STAFF Â SGILIAU CYMRAEG YN BWYSIG

**81%**
O FUSNESAU YNG NGOGLEDD CYMRU Â STAFF Â SGILIAU CYMRAEG

**37,000**
O BOBL IFANC MEWN YSGOLION CYFRWNG CYMRAEG LEDLED GOGLEDD CYMRU

Mae dwyieithrwydd llawer o'r gweithlu yng Ngogledd Cymru yn cael ei hystyried yn nodwedd gadarnhaol nad oes mo'i thebyg yn yr un rhanbarth arall. I gyflogwyr, mae'r sgil ychwanegol o allu gweithio mewn dwy iaith neu fwy yn cael ei hystyried yn rhinwedd fwyfwy dymunol y mae modd ei marchnata'n fewnol ac yn allanol er mwyn gwella'r busnes. Mae llawer o'n busnesau bach a'n hentrepreneuriaid yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn eu gweithgareddau busnes o ddydd i ddydd.




TROS OLWG O OGLEDD CYMRU

Mae entrepreneuriaeth a hunangyflogaeth yn dal i fod yn ffactorau sylweddol yn economi Gogledd Cymru, gyda'r niferoedd yn cynyddu mewn siroedd megis Ynys Môn a Gwynedd bob blwyddyn. Mae hyn i'r gwrthwyneb yng Nghonwy a Sir Ddinbych, lle mae'r niferoedd wedi gostwng rhywfaint rhwng 2014 a 2015, ond eto mae busnesau newydd yn dod â chyfleoedd o ran sgiliau a chyflogaeth i'r ardal, a bydd mwy o gefnogaeth gan ddarparwyr hyfforddiant ac addysg yn hanfodol i'w helpu i ddatblygu ac i fod yn gynaliadwy yn y tymor hirach.

**5.9%**
O FERCHED OED GWEITHIO YN HUNANGYFLOGEDIG


Mae amrywiaeth y sgiliau mewn sectorau traddodiadol fel amaethyddiaeth yn parhau i fod yn ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at dwf mewn entrepreneuriaeth, ynghyd ag unigolion ar ben arall y sbectrwm yn y diwydiannau creadigol a digidol.

**15%**
O DDYNION OED GWEITHIO YN HUNANGYFLOGEDIG

Er bod nifer y merched yn y rhanbarth sy'n dechrau gweithio'n hunangyflogedig wedi lleihau rhwng 2014 a 2015, mae nifer y dynion wedi cynyddu 0.1% (+200). cynyddu 0.1% (+200).


Y risg i ardal sydd â chyfran fawr o fusnesau micro (66.82%) yw mai'r busnesau hyn fydd yn wynebu'r heriau mwyaf o ran rhyddhau staff i gael eu hyfforddi ac i ddatblygu eu sgiliau, a bydd yn fwyfwy anodd ailgyflenwi staff os byddant yn colli rhai i brosiectau trawsffurfiol mawr. Bydd hybu mynediad at brentisiaethau a hyfforddiaethau i fusnesau micro yn ffactor cadarnhaol allweddol wrth symud ymlaen i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mae sefydliadau fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru drwy ei aelodau yn y rhanbarth, yn amlygu'r gefnogaeth y mae'n teimlo sydd ei hangen ar fusnesau micro a busnesau bach a chanolig i'w cynorthwyo â chylch bywyd eu busnesau ac i gael rhagor o gymorth o ran cynllunio olyniaeth a strategaethau gadael, yn hytrach na chanolbwyntio ar dwf yn unig.



**Efallai mai dim ond cyfran fach o gyfanswm nifer y cyflogwyr yn y rhanbarth fydd y cwmnïau hynny sy'n cyflogi llawer iawn o weithwyr, ond mae eu gwerth yn helaeth i'r cadwyni cyflenwi ehangach ac i gyfleoedd a datblygiadau sgiliau pellach ar y cyd â darparwyr addysg yn y rhanbarth.**

**Fodd bynnag, mae angen cymorth i hybu cyfleoedd gyrfa mewn busnesau bach ledled y rhanbarth, a dylid annog unigolion llwyddiannus sy'n gadael addysg i ystyried llwybrau gyrfa mewn busnesau llai ochr yn ochr â'r buddiannau mwy amlwg o weithio mewn cwmnïau mwy.**




Mae symudedd sgiliau a'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru yn parhau i ddatblygu, ac mae'r symudedd hwn yn debygol o ddal ati i gynyddu yn sgil cyfleoedd cyflogaeth pellach o ganlyniad i brosiectau trawsffurfiol rhanbarthol. Yn y rhanbarth, bydd pobl yn teithio hyd at 90 munud i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth sy'n talu'n dda.

Rydyn ni eisoes yn gweld sgiliau a'r farchnad lafur yn symud i glystyrau fel Stad Ddiwydiannol Wrecsam ac Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, yn ogystal â safleoedd tymor hir posib fel Trawsfynydd a Wylfa. Mae datblygu a chadw staff medrus yn y ddau safle hyn, yn enwedig ar ôl y gwaith datgomisiynu, yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer yr ardal.

Yn ddiweddar mae Prosiect Carchar newydd Gogledd Cymru yn Wrecsam wedi denu crefftau medrus o bob cwr o Ogledd Cymru. Mae pobl o Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy yn teithio i weithio ar y safle o ganlyniad i'r cyfleoedd sy'n talu'n dda y mae'r prosiect hwn (a fydd yn cyflogi hyd at 800 o weithwyr adeiladu yn ystod 2016) yn eu cynnig i'r rhanbarth.

Bydd cynigion o ran datblygu seilwaith a thrafnidiaeth yn hollbwysig er mwyn gwella mynediad at gyfleoedd llafur a sgiliau yn y rhanbarth, a bydd rhagor o dystiolaeth o'r cysylltiad hwn yn un o brif nodweddion unrhyw Gynnig Twf arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru.

**£35bn**
YW GWERTH YR ECONOMI DRAWSFFINIOL AR GORIDOR YR M56 – A55

**Gyda'i gilydd bydd y gwelliannau, sy'n cynnwys trydaneiddio rhwydwaith rheilffyrdd Gogledd Cymru; canolfannau ychwanegol fel rhan o'r rhwydwaith cludo teithwyr rhanbarthol estynedig; gwella'r rhwydwaith ffyrdd, gan gynnwys yr A494 a'r A55, i hwyluso teithio trawsffiniol; a thrydedd bont bosibl ar draws y Fenai i ddiwallu anghenion Wylfa Newydd a phrosiectau eraill ar Ynys Môn, yn helpu i greu cyfleoedd ac i symud sgiliau yn ein marchnad lafur nawr ac i'r dyfodol.**

**22,800**
YN CYMUDO O OGLEDD CYMRU I LOEGR BOB DYDD

**30,700**
O BOBL YN TEITHIO I'R GWAITH YNG NGOGLEDD CYMRU O'R TU ALLAN I'R RHANBARTH

**28%**
YN GWEITHIO Y TU ALLAN I'R SIR LLE MAENT YN BYW

Yn ogystal ag ystyried sut rydyn ni am ddenu'r rheini a arferai fyw yn y rhanbarth, sydd â sgiliau priodol er mwyn manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth newydd, i ddychwelyd yn ôl i'r rhanbarth, mae symud sgiliau ar draws ffiniau hefyd yn bwysig i'w ystyried yng nghyswllt sgiliau a chyflogaeth yn y dyfodol.


Er bod cyflogwyr a phrosiectau yng Ngogledd Cymru yn parhau i ddenu unigolion, mae 12,900 yn cymudo o Sir y Fflint i weithio yng Nghaer a Gorllewin Swydd Gaer, ac mae 5,400 o Wrecsam a 900 o Sir Ddinbych yn gwneud yr un fath. Mae 1,100 arall yn cymudo o Sir y Fflint i weithio yng Nghilgwri, a 2,500 yn teithio o Wrecsam i weithio yn Swydd Amwythig.

Mae'r echelin dwyrain – gorllewin yn rhan allweddol o economi a marchnad lafur Gogledd Cymru, ac felly ni fydd terfynau gweinyddol yn rhwystr gan fod economi Gogledd Cymru wedi'i gysylltu'n annatod â Gogledd Orllewin Lloegr.

I gyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu Cynnig Twf Gogledd Cymru, mae partneriaid yn Swydd Gaer ac yn Warrington wedi datblygu Cynnig Twf Datganoli gyda'r nod o ddarparu 127,000 o swyddi ychwanegol a chynyddu eu GVA ar y cyd gan £27 biliwn bob blwyddyn erbyn 2040. Bydd y cydweithio parhaus rhwng partneriaid bob ochr i'r ffin er mwyn helpu i gyflawni amcanion ei gilydd yn hollbwysig er mwyn gwella'r agenda ehangach o ran rhannu sgiliau a'r farchnad lafur drawsffiniol.

Fodd bynnag, mae Canolbarth Cymru yn fwyfwy dibynnol ar economi Gogledd Cymru wrth i Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy a Stad Ddiwydiannol Wrecsam ddenu nifer sylweddol o weithwyr o Bowys. Hefyd, yn hanesyddol, mae'r farchnad lafur fedrus sy'n byw mewn siroedd gwledig fel Ceredigion wedi teithio i safleoedd fel Trawsfynydd yng Ngwynedd, ac mae'n debygol y byddant yn dal yn cael eu denu i wneud hynny os bydd yr adweithydd arfaethedig llai ar yr un safle yn cael ei gymeradwyo.

Mae gwella cynhyrchedd yn y rhanbarth yn un o'n prif amcanion. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus ac i sicrhau economi mwy cytbwys a ffyniannus, bydd angen buddsoddiad tymor hir i fynd i'r afael â heriau tymor hir, yn enwedig yng nghyswllt trafnidiaeth, cymorth i fusnesau, anghenion tai a sgiliau a chyflogaeth.




## PROSIECTAU A BUDDSODDIADAU RHANBARTHOL Y MAE ANGEN SGILIAU ARNYNT

1 Wylfa Newydd

2 Gwaith Biomas Orthios

3 Land and Lakes, Ynys Môn

4 Canolfan Sgiliau a Thechnoleg Gweithgynhyrchu Uwch

5 Carchar Ei Mawrhydi Berwyn, Wrecsam

6 Porth y Gogledd, Sir y Fflint

7 Warren Hall, Glannau Dyfrdwy

8 Cyfleuster Adennill Ynni Parc Adfer, Glannau Dyfrdwy

9 Adweithydd Niwclear Modiwlaidd Trawsfynydd

10 Canolfan Ofod Llanbedr

11 Morlyn Llanw Bae Colwyn

Damcaniaethol yn unig yw'r tri phrosiect diwethaf yn y rhestr uchod ar hyn o bryd ac, os byddant yn cael eu datblygu ymhellach, bydd galw am sgiliau unigryw a phenodol yng Ngogledd Cymru i gefnogi'r gwaith o'u hadeiladu a'u gweithredu yn y pen draw.

TROS OLWG O OGLEDD CYMRU


Mewn economi sy'n tyfu, mae mwyfwy o alw am sgiliau a chyflogaeth sy'n diwallu anghenion y cyfuniad o gyflogwyr yn ein Hardaloedd Menter, yn ein prosiectau rhanbarthol blaenllaw, yn ein prif sectorau economaidd a thwf, ac yn ein hasgwrn cefn economaidd o fusnesau micro a Busnesau Bach a Chanolig ledled y rhanbarth.

Diben y rhan hon o'r cynllun yw ystyried y gofynion o ran yr agenda sgiliau a'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru. Yn gyntaf bydd yr adran hon yn rhoi trosolwg eang o faterion ehangach o ran y galw am sgiliau, yn ogystal â meysydd posib i'w hystyried er mwyn mynd i'r afael â'r rhain; yna bydd yn cynnwys dadansoddiad a throsolwg unigol o'r galw sy'n wynebu'r tri sector economaidd allweddol a'r pedwar sector twf cydnabyddedig yng Ngogledd Cymru.

## SECTORAU Â BLAENORIAETH



YNNI A'R AMGYLCHEDD



DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH



ADEILADU

## SECTORAU TWF



CREADIGOL A DIGIDOL



IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL



TWRISTIAETH A LLETYGARWCH



GWEITHGYNHYRCHU BWYD A DIOD

O ran y sgiliau technegol, academaidd a galwedigaethol penodol y mae galw amdanynt yn y saith sector uchod a'r galw am ail-sgilio'r farchnad lafur bresennol, yn enwedig mewn Busnesau Bach a Chanolig a busnesau micro, mae cyflogwyr o bob un o'r sectorau hyn yn gytûn bod angen i'r holl weithwyr presennol, a darpar weithwyr yn enwedig, feddu ar gasgliad o sgiliau sylfaenol, mwy 'meddal'.

Barn cyflogwyr mewn perthynas â'r unigolion ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur am y tro cyntaf yw bod llawer o weithwyr newydd sydd wedi'u recriwtio neu eu penodi yn dangos diffyg cymhwysedd ac ymwybyddiaeth o ran y sgiliau mwy 'meddal' sydd eu hangen ar gyflogwyr, er bod ganddynt lawer o sgiliau academaidd neu sgiliau sy'n benodol i'r diwydiant.

Y GALW YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn tîm, cydweithio, rhyngweithio â gweithwyr eraill a rhyngweithio rhwng gweithwyr a chwsmeriaid, ac mae angen y rhain yn y rhan fwyaf o weithleoedd modern, os nad ym mhob un.

I weithwyr newydd ac i'r rheini sy'n dychwelyd ar ôl cyfnod o fod yn ddi-waith, gallai peidio â meddu ar y sgiliau mwy 'meddal' hyn yn ein marchnad lafur yng Ngogledd Cymru arwain at ragor o swyddi gwag tymor hir, rhagor o gostau i hyfforddi gweithwyr, a gweithwyr yn gweithio ar lefelau is na'r disgwyl.

## GOFYNION SGILIAU SYLFAENOL CYFLOGWYR

| | | |
|---|---|---|
| CYFATHREBU | GWNEUD PENDERFYNIADAU A DATRYS PROBLEMAU | HUNANREOLAETH |
| GWEITHIO MEWN TÎM | BOD YN BROFFESIYNOL | ARWEINYDDIAETH |

Mae cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i dynnu darpariaeth y Gronfa Ddata Profiad Gwaith Cenedlaethol a'r gwasanaeth gwirio iechyd a diogelwch cysylltiedig ar gyfer lleoliadau profiad gwaith yn ôl o gylch gorchwyl Gyrfa Cymru wedi effeithio'n sylweddol ar gyfleoedd myfyrwyr ifanc i fynd ar leoliadau ac i gael profiad gwaith. Nid oes dull cyson i gefnogi pobl ifanc a chyflogwyr bellach.

Yn sgil y twf a ragwelir ar gyfer Gogledd Cymru, mae angen i ni weithio gyda darparwyr addysg i greu cysylltiadau gwell gyda chyflogwyr. Dylai cyflogwyr a darparwyr addysg ar y cyd ystyried datblygu'r gwaith o dargedu penodol o oedran iau mewn ysgolion, a mynd i'r afael â'r diffyg arweiniad gyrfaol a phrofiad gwaith mewn ysgolion yn y rhanbarth gyda chymorth partneriaid gan gynnwys Gyrfa Cymru, y rhwydwaith 14-19 a swyddogion Peirianneg, Caffael ac Adeiladu (EPC) rhanbarthol.

Er mwyn cyd-fynd â datblygiadau cenedlaethol y Fagloriaeth Gymreig, mae angen i ni ystyried gweithio gyda chyflogwyr rhanbarthol a chyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr i ddatblygu "Pecyn Cymorth o Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer Gogledd Cymru" a fyddai'n dyfarnu tystysgrif achrededig gyfunol ar ran darparwyr addysg y rhanbarth. Byddai cwblhau'r pecyn cymorth yn llwyddiannus yn helpu cyfranogwyr i gyflawni disgwyliadau'r farchnad lafur a gofynion darpar gyflogwyr yn ein prif sectorau twf.

**Mae angen mwy o gefnogaeth ar gyfer dull rhanbarthol o gynnig cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd yn ein hysgolion er mwyn i ni baratoi ein marchnad lafur yn y dyfodol yn llwyddiannus drwy roi profiad priodol o'r gweithle, a thrwy hynny gynyddu dyhead i ateb galw'r cyflogwr yn y dyfodol**

"Datblygu Pecyn Cymorth o Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer Gogledd Cymru, a fyddai'n dyfarnu tystysgrif achrededig, yw'r union beth y mae'r Sector Preifat am ei weld. Un o'r prif broblemau y mae busnesau'n ei hwynebu pan fyddant yn cyflogi gweithwyr sy'n newydd i'r farchnad lafur am y tro cyntaf yw bod angen iddynt fod yn "barod am waith" ac yn meddu ar y sgiliau 'meddal' perthnasol y mae galw amdanynt mewn amgylcheddau busnes heddiw. Mae cwrs "hyfforddiant sylfaenol" sy'n arwain at dystysgrif i nodi bod ymgeiswyr am swyddi yn "barod am waith" yn hanfodol. Gan ystyried natur drawsffiniol ein heconomi, dylid datblygu hyn drwy weithio gyda'n partneriaid ledled Swydd Gaer a Chilgwri."

NWBC Cyngor Busnes Gogledd Cymru North Wales Business Council

## GOFYNION SGILIAU UWCH CYFLOGWYR

| | |
|---|---|
| CYFRIFIADURA A THECHNEGOL | DYLANWAD |
| MARCHNATA | DATBLYGU CYNNYRCH |

Mae'r sgiliau hyn, yr arferid eu hystyried gan gyflogwyr yn sgiliau uwch, bellach yn sgiliau prif ffrwd sy'n ddisgwyliedig mewn busnesau yng Ngogledd Cymru. Mae'r themâu trawsbynciol o ran ymwybyddiaeth a chymhwysedd mewn pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), llythrennedd a rhifedd, ac ymwybyddiaeth gyffredinol o ymddygiad ac ymarweddiad priodol yn y gweithle yn feysydd sy'n fwyfwy perthnasol i gyflogwyr wrth ystyried penodi staff ym mhob sector twf.


Bydd ffactorau economaidd a gwleidyddol fel y bleidlais ddiweddar i adael yr UE yn cael mwyfwy o ddylanwad ar lefel a phroffil y galw am gynnyrch a gwasanaethau yng Ngogledd Cymru, ac felly hefyd y galw am sgiliau mewn gweithleoedd ledled y rhanbarth yn y dyfodol.

Er bod gofynion prosiectau trawsffurfiol rhanbarthol, ynghyd â'n Busnesau Bach a Chanolig a'n busnesau micro, ar lefel prosiect o hyd, mae angen i ni ystyried gofynion y farchnad lafur ochr yn ochr â hynny. Yn gyntaf, os bydd unigolion yn aros yn y farchnad lafur am fwy o amser o ganlyniad i newidiadau pensiwn ac ymddeoliad, mae'n debygol y bydd y galw am ail-hyfforddi ac addysg barhaus yn cynyddu. Yn ail, os bydd pobl yn gweithio nes byddan nhw'n hŷn na chenedlaethau blaenorol, efallai y bydd hyn yn lleihau'r cyfleoedd tymor byr i bobl ifanc ymuno â'r farchnad lafur er mwyn bodloni gofynion cynyddol cyflogwyr.

**500**
O SWYDDI NEWYDD YN OFYNNOL YN Y SECTOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL BOB BLWYDDYN

**3,000**
O SWYDDI NEWYDD I'W DISGWYL YN Y SECTOR TWRISTIAETH DROS Y 10 MLYNEDD NESAF

**10,000**
O SWYDDI NEWYDD YN MYND I GAEL EU CREU YN Y SECTOR ADEILADU YN Y 5 MLYNEDD NESAF




1 **PŴER NIWCLEAR HORIZON**
Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd Arfaethedig gyda'r capasiti i gynhyrchu tua 2.7GW o ynni carbon isel.

2 **LAND & LAKES**
Gwaith arfaethedig i ddatblygu 1100 o Unedau o Gyfleusterau Hamdden a Phentref Twristiaeth a Phreswyl at ddefnydd cymysg. Cam 1 – Llety i Weithwyr Wylfa.

3 **PORTHLADD CAERGYBI**
Porth Strategol Rhyngwladol

4 **MINESTO**
Minesto yw un o'r datblygwyr mwyaf blaenllaw yn y byd o ran technoleg arloesol ynni'r llanw; sefydlwyd i fasnacheiddio trawsnewidydd ynni'r llanw a elwir yn Deep Green oddi ar arfordir Ynys Môn.

5 **ORTHIOS**
Parc Eco / Biomas 299MW arfaethedig a fydd yn darparu Ynni ac Ager ar gyfer Mentrau Hydroffonig a Dyframaeth.

6 **GRŴP LLANDRILLO MENAI A LOCKHEED MARTIN**
Ehangu'r campws i gynnwys ymestyn y Ganolfan Ynni.

7 **M-SPARC**
Parc Gwyddoniaeth arfaethedig sy'n dod ag ymchwilwyr academaidd ac arbenigwyr masnachol ynghyd.

8 **CANOLFAN OFOD, LLANBEDR**
Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio rhestr fer o waith datblygu posib ar gyfer y safle hwn. Gallai'r safle arfaethedig hwn fod yn weithredol yn 2018.

9 **ADWEITHYDD NIWCLEAR MODIWLAIDD BACH, TRAWSFYNYDD**
Gallai safle'r hen orsaf bŵer niwclear yn Eryri fod y safle ar gyfer cenhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear gyda 38 o gwmnïau yn dangos diddordeb mewn adeiladu'r cyfleuster yn barod, a allai fod ar gael erbyn 2025.

10 **MORLYN LLANW, BAE COLWYN**
Creu ynni adnewyddadwy morol o dechnoleg twrbinau 'amrediad llanw'. Yn aros am adolygiad o hyfywedd gan y llywodraeth ar hyn o bryd yn seiliedig ar brosiect morlyn Abertawe/pris sefydlog y cynnyrch.

11 **PORTH Y GOGLEDD, SIR Y FFLINT**
Ac yntau'n 200 hectar, dyma fydd y safle datblygu defnydd cymysg mwyaf yng Nghymru at ddefnydd masnachol yn y sectorau canlynol: peirianneg, electroneg, adeiladu peiriannau a gwasanaethau yn ogystal â datblygiadau preswyl.

12 **NEUADD WARREN, GLANNAU DYFRDWY**
Safle swyddi o safon uchel 80,000m2 dan arweiniad y sector preifat sydd â chaniatâd cynllunio at ddefnydd cyflogaeth yn cynnwys gwesty 120 gwely a datblygiad manwerthu.

13 **PARC ADFER, GLANNAU DYFRDWY**
Cyfleuster adfer ynni newydd arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru.

14 **CARCHAR BERWYN, WRECSAM**
Mae'r carchar mwyaf i gael ei ddatblygu yn y DU wrthi'n cael ei adeiladu, gan ddod ag oddeutu £22.5m y flwyddyn i'r economi leol. Ar y trywydd iawn i'w gwblhau yn 2017.

15 **CANOLFAN YNNI WRECSAM**
Mae Canolfan Ynni Wrecsam yn orsaf bŵer tanio nwy - tyrbin nwy cylch cyfyng (CCGT) arfaethedig newydd i'w lleoli yn Ystad Ddiwydiannol Wrecsam.

Mae'r sector ynni a'r amgylchedd yn gyflogwr allweddol yng Ngogledd Cymru, ac felly mae'n cael ei ystyried yn un o dri sector allweddol y rhanbarth yn y Cynllun.

Drwy ymgorffori is-sectorau sy'n cynnwys cynhyrchu ynni a'i ddefnyddio, ynni adnewyddadwy a thanwydd carbon isel amgen, effeithlonrwydd ynni a rheoli gwastraff, mae'r sector yn dal yn esblygu fel un o brif ddiwydiannau economaidd-gymdeithasol Gogledd Cymru.

Disgwylir y bydd nifer o brosiectau arloesol ar raddfa fawr yn dechrau yn ystod y pum mlynedd nesaf ar draws y sector amrywiol hwn, yn ogystal â'r cyfleusterau a'r prosiectau sydd eisoes ar y gweill. Mae llawer o alw am sgiliau sy'n seiliedig ar gymwyseddau sylfaenol STEM, ac mae gofyn am arbenigeddau ychwanegol i'r rheini er mwyn diwallu'r galw cynyddol.


**16,789**
O BOBL YN CAEL EU CYFLOGI MEWN BUSNESAU AMGYLCHEDDOL AC YNNI ARBENIGOL LEDLED GOGLEDD CYMRU

**1,000**
AMCANGYFRIFIR Y BYDD 1,000 O SWYDDI GWEITHREDOL YN CAEL EU CREU YM MHROSIECT WYLFA NEWYDD GWERTH £12BN

**156**
O FUSNESAU YN Y SECTOR EANG HWN YN CYFLOGI STAFF LEDLED GOGLEDD CYMRU AR HYN O BRYD

Er bod y sector yn cael ei ystyried yn allweddol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, mae'n anodd cael cynrychiolaeth glir a chyson o'r gweithlu yn y sector. Mae hyn oherwydd bod gwahanol ddarparwyr yn defnyddio dehongliadau gwahanol o elfennau cyfansawdd y farchnad lafur, yn ogystal â'r ffaith bod data adeiladu a chynhyrchu o fewn rhai elfennau'r sector.

**Canran y bobl dros 16 oed sy'n cael eu cyflogi yn y sector hwn yng Ngogledd Cymru.**




Source: Welsh Government 2015

Mae'r rheini sy'n cael eu cyflogi yn y sector allweddol hwn yng Ngogledd Cymru yn weithwyr tymor hir. Gwelwn hyn yn enwedig yng ngorsafoedd niwclear Trawsfynydd a Wylfa lle nad yw'r staff yn newid yn aml, ac mae'r cyflogau'n uchel o gymharu â chyflogwyr eraill yn y sector hwn.

Mae cyflogwyr yn disgwyl bod gweithwyr newydd yn y sector hwn wedi'u hyfforddi'n dda o ran cymwyseddau sylfaenol y gwaith a'u bod yn dangos sgiliau allweddol penodol cyn cael eu penodi. Ni ddylid diystyru'r galw am ragor o weithwyr STEM cymwys yng Ngogledd Cymru gan fod disgwyliadau cyflogwyr yn codi o ganlyniad i ragor o gystadleuaeth am lai o gyfleoedd cyflogaeth sy'n talu'n dda.

Mae llawer o sôn am y swyddi newydd posib a fydd yn cael eu creu yn sgil Wylfa Newydd. Amcangyfrifir y bydd tua 8,500 o swyddi newydd yn ystod y cyfnod adeiladu, a dros 1,000 o swyddi yn ystod y cyfnod gweithredol. Mae'n rhaid sylweddoli maint y prosiect gweithredol gwerth dros £12 biliwn yn Wylfa Newydd o ran ei effaith ar y sylfaen sgiliau yn y rhanbarth, a'i effaith ehangach ar y gadwyn gyflenwi. Bydd galw sylweddol am gontractwyr, peirianwyr a rheolwyr prosiect sydd â'r sgiliau priodol yn ystod y cyfnod adeiladu, a disgwylir y byddant yn gweithio yn unol â gofynion y prosiect, a fydd yn cynnwys 270,000m3 o goncrid, 100km o bibellau, 70,000 tunnell o farrau atgyfnerthu, yn ogystal ag amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar draws pob sector.

Amcangyfrifir y bydd y cyfnod gweithredol yn dechrau yn 2024. Bydd yn cyflenwi pŵer i hyd at bum miliwn o gartrefi ac yn weithredol am o leiaf 60 o flynyddoedd. Disgwylir y bydd hyd at 850 o staff gweithredol cyson, a hyd at 1,000 o staff gweithredol ar adegau allweddol o'r gwaith.

Nid oes ffigurau manwl ar gael ar gyfer cyfnod adeiladu Wylfa Newydd ar hyn o bryd (Mehefin 2016), ac felly allwn ni ddim damcaniaethu ar y disgwyliadau o ran swyddogaethau a'r cyfleoedd cyflogaeth a fydd eu hangen. Serch hynny, i staff a fydd yn gweithio ar y safle yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd angen gwella eu cymwyseddau a'u sgiliau adeiladu traddodiadol i gynnwys sgiliau niwclear er mwyn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol yn unol â'r galw.

## MEYSYDD Y GALW: ADEILADU NIWCLEAR

| | | |
|---|---|---|
| PEIRIANNEG FECANYDDOL | PEIRIANNEG SIFIL | OFFER A RHEOLAETH |
| GWEITHWYR CONCRIDIO | GOSODWYR DUR A SGAFFALDWYR | RHEOLWYR PROSIECTAU A RHAGLENNI |

Pan fydd y prif gontractwyr yn rhyddhau gwybodaeth am y sgiliau a'r niferoedd y bydd eu hangen arnynt, bydd hynny'n ddefnyddiol iawn i sefydliadau blaenllaw yn y diwydiant, fel CITB, ac i ddarparwyr addysg yn enwedig, er mwyn gallu cynllunio a hybu cyfleoedd cyflogaeth a gyrfaoedd yn effeithiol yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect.

Ar hyn o bryd, mae Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria yn cynnig rhaglenni o gyrsiau cadarn a pherthnasol sy'n ymwneud ag adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mae'r ddau ddarparwr yn wynebu anawsterau wrth i sylwebwyr alw arnynt i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigiant a niferoedd y myfyrwyr maent yn eu derbyn, ond heb wybodaeth fwy penodol nid yw myfyrwyr, dan ddylanwad eu rhieni'n benodol, yn fodlon dilyn llwybr nad oes canlyniad clir iddo neu nad oes gwybodaeth benodol o ran amserlen a maint y gwaith.

Mae cydberthynas bosib rhwng datblygu prosiectau yn Wylfa Newydd a phrosiectau mewn ardaloedd eraill yn y DU fel Hinkley Point. Er eu bod yn defnyddio technolegau gwahanol i weithredu, mae risg sylweddol yn y ddau oherwydd bydd angen gweithwyr adeiladu sydd wedi'u hyfforddi ac yn gymwys i weithio gyda deunydd niwclear ar yr un pryd.

Mae'r Cynllun hwn eisoes wedi nodi bod y gweithlu adeiladu yng Ngogledd Cymru yn heneiddio (34% dros 50 oed), ac felly bydd denu gweithwyr newydd i'r sector er mwyn ateb y galw yn hollbwysig.

Hefyd, ni ddylid diystyru'r cyfleoedd i wella sgiliau yn y meysydd cadwyni cyflenwi, fel y sector gweithgynhyrchu yng Ngogledd Cymru, er mwyn bodloni gofynion prosiectau ynni fel Wylfa Newydd.

Fel rhanbarth, bydd angen i ni ateb y galw hwn drwy helpu gweithgynhyrchwyr i wella ansawdd, i ddatblygu gallu, ac i wella eu gwybodaeth am y sector niwclear ac am is-sectorau ynni eraill priodol yn y rhanbarth, er mwyn bod mewn sefyllfa gryfach o ran sgiliau i allu cynnig am fusnes yn gystadleuol ac ennill gwaith ledled y sector economaidd allweddol hwn yng Ngogledd Cymru. Bydd ymrwymo i ddatblygu'r Ganolfan Sgiliau a Thechnoleg Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy yn hollbwysig er mwyn gwneud hyn.

### MEYSYDD Y GALW: STAFF GWEITHREDOL NIWCLEAR

| | | |
|---|---|---|
| **GWEITHREDIADAU** tua 210 | **PEIRIANNEG** tua 210 | **CYNNAL A CHADW** tua 210 |
| **CYMORTH BUSNES** tua 70 | **CYMORTH TECHNEGOL** tua 90 | **ARWEINWYR HYFFORDDIANT** tua 60 |

Mae hybu prentisiaethau yn y sector yn faes allweddol i roi cyfleoedd i gyflogwyr ac i'r unigolion sy'n gobeithio cael gwaith neu ddatblygu yn y sector yn uniongyrchol, neu i elwa mewn sectorau cysylltiedig fel adeiladu a gweithgynhyrchu a'r cadwyni cyflenwi ehangach, o ganlyniad i brosiectau trawsffurfiol allweddol ym maes ynni.

Mae cefnogaeth gan ddarparwyr yn y rhanbarth yn parhau i esblygu er mwyn ateb y galw a'r disgwyliadau, ond gall gwaith hyrwyddo a darpariaeth hyblyg gynorthwyo'r gwaith o ddiwallu cyfleoedd ac anghenion masnachol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod cyfran helaeth o bobl yng Ngogledd Cymru yn aros mewn addysg pan fyddan nhw'n 16 oed, ac felly bydd y galw am brentisiaethau yn fwy tebygol o ddenu dysgwyr 18/19 oed, ac felly bydd y niferoedd rhwng 16 ac 18 oed yn isel.t

**Ymhlith yr heriau sy'n wynebu'r sector mae'r angen i ehangu'r ddarpariaeth addysg a sgiliau yn rhanbarthol i ysgogi ac ysbrydoli llwybrau gyrfa yn y dyfodol yn y sector mewn ymateb i weithlu presennol sy'n heneiddio, a'r ffaith bod angen mwy o sgiliau technegol cysylltiedig â STEM i ateb y galw technolegol a'r galw gan gyflogwyr**

O ganlyniad i'r gwaith datblygu a'r galw yn y sector Ynni yng Ngogledd Cymru, gyda llawer o hynny wedi'i grynhoi yng ngorllewin y rhanbarth (gan gynnwys Orthios a Minesto yn ogystal â Wylfa), bydd cynnydd yn y galw am sgiliau peirianneg gan gynnwys prentisiaethau (a Phrentisiaethau Uwch hefyd) yn ogystal â sgiliau peirianneg ar bob lefel.

Er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y cynnydd hwn ac i ateb y galw yn y dyfodol, mae'n amlwg bod angen ehangu'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau ar gampws Llangefni ar Ynys Môn i greu canolfan dechnoleg ar gyfer y rhanbarth, gan y byddai'n agos i nifer o'r prif brosiectau trawsffurfiol. Y cam nesaf ar gyfer creu'r ganolfan hon yw ymestyn y Ganolfan Ynni a'r Ganolfan Adeiladu bresennol i ffurfio un ganolfan ragoriaeth ranbarthol, ac ychwanegu cyfleuster peirianneg modern newydd sy'n ymateb i'r diwydiant ar y campws, gan adleoli'r ddarpariaeth bresennol o safleoedd eraill.

Bydd angen defnyddio sgiliau o'r estyniad hwn yn Llangefni er mwyn mynd i'r afael â gofynion prosiect ORTHIOS. Mae hwn yn ddatblygiad gwerth £1 biliwn ar Ynys Môn a fydd yn creu tua 800 o swyddi adeiladu ac yn darparu hyd at 700 o swyddi tymor hir pan fydd yn weithredol yn 2018.

Y bwriad yw y bydd Orthios, yn ogystal â bod yn gyfleuster Parc Eco, yn darparu 299 MW o ynni, a gynhyrchir mewn gwaith Biomas wedi'i gyfuno a chyfleuster bwyd a phŵer (acwaboneg a hydroboneg), i 300,000 o gartrefi. Hefyd, hwn fydd y cyfleuster tyfu corgimychiaid mewndirol mwyaf yn y byd, a'r cyfleuster cyntaf erioed ar gyfer compostio pecynnau bwyd yn y cartref.

MAE CYFLEUSTERAU A CHYNIGION CARBON ISEL AR GAEL YN Y 3 ARDAL FENTER

MAE AIL-SGILIO A GWELLA SGILIAU GWEITHWYR PRESENNOL ER MWYN BODLONI GOFYNION ADEILADU NEWYDD YN FLAENORIAETH


BYDD EHANGU'R SECTOR YNNI YN CREU GALW YCHWANEGOL MEWN SECTORAU GWASANAETH RHANBARTHOL

Ymysg y gofynion ehangu eraill yn y sector yng ngorllewin y rhanbarth, mae cynnwys Minesto a'i gynllun arfaethedig i ddatblygu technoleg er mwyn defnyddio a throi ynni'r llanw oddi ar arfordir Ynys Môn; yn ogystal â gwaith gan y Grid Cenedlaethol i ymchwilio i roi technoleg a sgiliau allweddol ar waith er mwyn cysylltu ynni carbon isel newydd arfaethedig rhwng Ynys Môn a Gogledd Cymru.

Yn nwyrain y rhanbarth, mae gofynion eraill o ran y sgiliau sydd eu hangen ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yng nghyswllt datblygiadau arfaethedig newydd. Mae hyn yn cynnwys Canolfan Ynni Wrecsam, sef gorsaf bŵer arfaethedig wedi'i thanio gan nwy cylch cyfun ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam.

Bydd angen tua 500 o weithwyr adeiladu sydd â sgiliau allweddol mewn cysylltedd trydan a nwy ar gyfer y prosiect er mwyn helpu i osod tri thyrbin. Pan fydd yn weithredol bydd yn creu 30 o swyddi cymwys iawn sy'n talu'n dda er mwyn rheoli a gweithredu'r cyfleuster arloesol hwn.

Yng Nglannau Dyfrdwy, bydd cyflogaeth weithredol debyg yn cynnig 35 o swyddi medrus newydd yng Nghyfleuster Adennill Ynni arfaethedig Parc Adfer. Bydd y prosiect yn trin gwastraff nad oes modd ei ailgylchu a disgwylir gwariant o tua £50 miliwn o gyllid sector preifat rhwng 2017 a 2020, gan gefnogi 300 yn rhagor o swyddi adeiladu.




1 **PŴER NIWCLEAR HORIZON NUCLEAR POWER**
Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd Arfaethedig gyda'r capasiti i gynhyrchu tua 2.7GW o ynni carbon isel.

2 **MAGNOX**
RGorffennodd Wylfa, yr orsaf bŵer fwyaf ac olaf o orsafoedd pŵer Magnox, gynhyrchu ddiwedd 2015. Mae bellach yn cael ei gwagio o danwydd.

3 **M-SPARC**
Parc Gwyddoniaeth arfaethedig sy'n dod ag ymchwilwyr academaidd ac arbenigwyr masnachol ynghyd.

4 **GRŴP LLANDRILLO MENAI & LOCKHEED MARTIN**
Ehangu'r campws i gynnwys ymestyn y Ganolfan Ynni.

5 **LAND & LAKES**
Gwaith arfaethedig i Ddatblygu 1100 o Unedau o Gyfleusterau Hamdden a Phentref Twristiaeth a Phreswyl at ddefnydd cymysg. Cam 1 – Llety i Weithwyr Wylfa.

6 **MINESTO**
Minesto yw un o'r datblygwyr mwyaf blaenllaw yn y byd o ran technoleg arloesol ynni'r llanw; sefydlwyd i fasnacheiddio trawsnewidydd ynni'r llanw a elwir yn Deep Green oddi ar arfordir Ynys Môn.

7 **NATIONAL GRID**
Cysylltu ynni carbon isel newydd arfaethedig ar Ynys Môn.

8 **ORTHIOS**
Parc Eco / Biomas 299MW arfaethedig a fydd yn darparu Ynni ac Ager ar gyfer Mentrau Hydroffonig a Dyframaeth.

9 **PARC ADFER • GLANNAU DYFRDWY • DEESIDE**
Cyfleuster adfer ynni newydd arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru.

10 **GWYNT Y MÔR (RWE INNOLOGY)**
Y cwmni yma sy'n gweithredu 3 fferm wynt ar y môr Cymru, yn cynnwys Fferm Wynt Ar y Môr Gwynt y Môr - 160 o dyrbinau.

11 **MAGNOX**
Mae Trawsfynydd yn orsaf niwcler sydd wedi cau ar gamau olaf y gwaith dadgomisiynu.

12 **FIRST HYDRO / GDF SUEZ**
Gorsafoedd storfeydd pwmp hydro-drydanol yn Llanberis a Ffestiniog yn Eryri

13 **PORTHLADD CAERGYBI • HOLYHEAD PORT**
Porth Strategol Rhyngwladol

14 **CANOLFAN YNNI WRECSAM • WREXHAM ENERGY CENTRE**
Mae Canolfan Ynni Wrecsam yn orsaf bŵer tanio nwy - tyrbin nwy cylch cyfyng (CCGT) arfaethedig newydd i'w lleoli yn Ystad Ddiwydiannol Wrecsam.

Mae'r sector Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch yn gyflogwr allweddol yng Ngogledd Cymru, ac yng Nghymru, ac felly mae'n cael ei ystyried yn un o dri sector allweddol y rhanbarth yn y Cynllun.

Drwy ymgorffori is-sectorau gan gynnwys awyrofod, moduron, cemegau a phetrolewm, peirianneg a pheirianneg fanwl, gwyddorau bywyd, deunyddiau a chaenau, optoelectroneg, gwasanaethau TG a chymorth penodol i'r sector, pecynnu, gwasanaethau proffesiynol, morol, dillad, metel a dur; mae'r sector yn parhau i esblygu fel un o brif ddiwydiannau economaidd-gymdeithasol Gogledd Cymru.

Disgwylir y bydd nifer o brosiectau arloesol ar raddfa fawr yn dechrau yn ystod y pum mlynedd nesaf ar draws y sector amrywiol hwn, yn ogystal â'r cyfleusterau a'r prosiectau sydd eisoes ar y gweill. Mae llawer o alw am sgiliau sy'n seiliedig ar gymwyseddau sylfaenol STEM, ac mae gofyn am arbenigeddau ychwanegol i'r rheini er mwyn diwallu'r galw cynyddol.

Mae'r sector gweithgynhyrchu wedi esgor ar £1,094 miliwn o Werth Ychwanegol Gros (GVA) yn y rhanbarth yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r galw am sgiliau yn y sector hwn yn dal i esblygu. Mae Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy a Stad Ddiwydiannol Wrecsam wedi helpu i ddenu a chadw dros 20,000 o swyddi ac mae'r farchnad lafur yn yr ardal hon yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn enwedig wedi cael dylanwad trawsffiniol sylweddol, gyda chysylltiadau cryf â Gogledd Orllewin Lloegr yn ardal Mersi a Dyfrdwy sy'n cynnwys Lerpwl, Cilgwri a Swydd Gaer.

Mae'r rhan hon o'r rhanbarth yn barod i ddenu rhagor o ddatblygiadau ac i greu twf, swyddi a sgiliau ychwanegol, gan barhau i gefnogi busnesau presennol fel Airbus, yr arweinydd byd-eang sydd â'r gwaith gweithgynhyrchu awyrofod mwyaf yn y DU ar eu safle ym Mrychdyn. Mae cwmnïau strategol bwysig eraill yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn cynnwys Tata Steel, Toyota, JCB, Hoya, Kellogg's ac UPM Shotton.

Er bod crynodiad mwy o gwmnïau a chyflogwyr yn y sector hwn yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, mae tua 230 o gwmnïau llai yn y sector hwn yn gweithredu yng Ngogledd Orllewin Cymru, sydd felly'n ei gwneud yn ardal flaenoriaeth allweddol yn y rhanbarth.

**40,000**
YN GWEITHIO YN Y SECTOR DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH LEDLED GOGLEDD CYMRU YN 2015

**740**
O FUSNESAU YN GWEITHREDU AR HYN O BRYD YN Y SECTOR HWN LEDLED GOGLEDD CYMRU YN 2015

**34%**
O BAWB A GYFLOGIR YN Y SECTOR DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH LEDLED CYMRU YN GWEITHIO YNG NGOGLEDD CYMRU

Yn 2015, comisiynwyd Miller Research gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i ymgymryd â'r gwaith o ddadansoddi'r sector Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch yng Ngogledd Cymru.

O ganlyniad i weithio gyda Miller Research, daethpwyd i'r casgliad ei bod yn debygol y bydd 1,700 yn llai o weithwyr yng ngweithlu'r sector Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch yng Ngogledd Cymru. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r gostyngiadau fod mewn swyddi lefel is, a disgwylir i nifer y swyddi lefel uwch gynyddu. Mae'r galw am ailgyflenwi o ganlyniad i weithlu sy'n heneiddio yn golygu y bydd galw am gynnydd net o 5,300+ o bobl yn y sector Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch erbyn 2022.

Wrth ddadansoddi cyflogaeth Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch ledled y rhanbarth fesul is-sector, gwelir bod gan Ogledd Cymru gyfran uwch yn cael ei chyflogi ym meysydd awyrofod (25%) ac electroneg (19%), o gymharu â gweddill Cymru a'r DU.

Gyda'i gilydd, mae'r ddau is-sector hyn yn cwmpasu 44% o'r holl gyflogaeth ym maes Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch yng Ngogledd Cymru, a'r 5 is-sector uchaf yn cwmpasu 83% o gyflogaeth Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch y rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys Awyrofod (25%), Electroneg (19%), Metelau (14%), gweithgareddau peirianneg eraill (13%) a moduron (12%).

Mae cwmnïau peirianneg yn cynnwys dros hanner (57%) yr unedau Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch yng Ngogledd Cymru, o gymharu â gweddill Cymru lle mae ychydig o dan 50% o'r busnesau Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch yn gwmnïau peirianneg. Ar y llaw arall, er mai dim ond 2% o holl fusnesau Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch Gogledd Cymru sy'n gwmnïau awyrofod, maent yn cynrychioli 25% o gyflogaeth y sector hwn yn y rhanbarth.

Os yw Gogledd Cymru am barhau i dyfu ei economi er mwyn cystadlu yn erbyn rhanbarthau eraill yn llwyddiannus, mae angen gweithlu o dechnegwyr medrus ar gyflogwyr yn y sectorau allweddol megis ynni, gweithgynhyrchu ac adeiladu. Bydd sectorau twf a sectorau traddodiadol eraill yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, a'r sectorau digidol ac iechyd, yn dibynnu'n fwyfwy ar dechnegwyr medrus os ydyn nhw am ddal ati i weithredu'n effeithlon.

Mae Gogledd Cymru yn dilyn meincnod y DU o ran perfformio'n gymharol dda yng nghyswllt sgiliau uwch a lefel raddedig. Ond nid yw ein perfformiad mor gadarnhaol yn y rhanbarth cyfan o ran technegwyr medrus ym maes gweithgynhyrchu heb radd. Er bod gennym ni bocedi o dechnegwyr rhagorol mewn ardaloedd daearyddol fel Glannau Dyfrdwy a Wrecsam lle mae cwmnïau mwy yn gallu denu, recriwtio a hyfforddi unigolion priodol, mae cyflogwyr llai yn y sector mewn rhannau eraill o'r rhanbarth yn sylwi bod recriwtio technegwyr cymwys yn dod yn fwy o broblem.

## PRINDER SGILIAU YN Y DYFODOL

**PEIRIANYDDION PROFFESIYNOL**

**GWYDDONWYR**

**TECHNOLEGWYR A THECHNEGWYR**

Yn ystod 2015, o ganlyniad i fonitro swyddi gwag ledled y sector yn gyffredinol, gwelwyd bod bron i 1,400 o swyddi peirianneg technegol wedi'u hysbysebu yng Ngogledd Cymru, a'r rhan fwyaf o'r rheini gyda chyflogwyr yn Wrecsam ac yn Sir y Fflint.

Roedd swyddi yr oedd galw mawr amdanynt yn cynnwys Gweithredwyr/Gosodwyr a Chrefftwyr a Thechnegwyr. Roedd swyddi penodol yr oedd galw mawr amdanynt yn cynnwys rheolwyr cynhyrchu, gwyddonwyr a thechnegwyr peirianneg, a thechnegwyr cynhyrchu a pheirianneg. Dyma rai o'r teitlau swyddi penodol yr oedd galw amdanynt: peirianwyr cynnal a chadw, weldwyr, a pheirianwyr CNC.

Roedd sgiliau technegol yr oedd galw amdanynt yn cynnwys atgyweirio, peirianwaith, arolygu a Chynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur (CAD), ac roedd y sgiliau annhechnegol yr oedd galw amdanynt yn cynnwys sgiliau mwy 'meddal' sy'n fwyfwy cyffredin o ran gofynion darpar staff ym mhob sector yng Ngogledd Cymru – gan gynnwys cyfathrebu, sgiliau cyfrifiadurol, rheoli a sicrhau ansawdd a datrys problemau yn bennaf.

Mae prentisiaethau yn y sector hwn yn werthfawr ac mae galw mawr amdanynt, gyda chwmnïau fel Airbus yn cynnig hyd at 100 o brentisiaethau a lleoliadau i raddedigion bob blwyddyn. Mae llwyddiant y cynllun penodol hwn yn amlwg gan fod bron i ddau draean o'r rheolwyr sydd ar safle Brychdyn ar hyn o bryd wedi bod yn brentisiaid gyda'r cwmni cyn hynny.

Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Airbus wedi wynebu problemau o ran recriwtio gan nad oedd gan rai prentisiaid posib y sgiliau 'meddal' a'r profiad ehangach i'w gynnig yn ogystal â'u cyraeddiadau a'u cymwysterau academaidd.

Gyda chrynodiad o gwmnïau gweithgynhyrchu mawr yn Wrecsam ac yng Nglannau Dyfrdwy, mae ymdeimlad ymysg cyflogwyr llai yn y sector nad ydynt yn gallu denu a recriwtio'r ymgeiswyr gorau ar gyfer prentisiaethau gan nad oes modd iddynt gynnig y buddiannau a'r gwobrwyon mae cwmnïau mawr, byd-eang yn y rhanbarth yn gallu eu cynnig.

Yn 2014/15, o'r rheini sy'n hanu o'r rhanbarth, roedd 590 o weithgareddau dysgu ym maes cynhyrchu a gweithgynhyrchu mewn addysg bellach yn cael eu cynnig ledled rhanbarth Gogledd Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys 5 NQF ar lefel 1, 465 ar lefel 2, gyda 105 ar lefel 3, a phump ar lefel 4. Mae hyn wedi cynyddu o gymharu â 540 o weithgareddau dysgu yn 2013/14, ond yn is na'r 570 o weithgareddau yn 2012/13.

Yn 2014/15, o'r rheini sy'n hanu o'r rhanbarth, roedd 590 o raglenni gweithgynhyrchu a chynhyrchu ar gyfer prentisiaid yn cael eu cynnig ledled rhanbarth Gogledd Cymru. Roedd 355 o'r rhain ar lefel 2, gyda 50 ar lefel 3, ac roedd llai na phum prentisiaeth uwch. Mae hyn wedi gostwng o'r 490 o raglenni yn 2013/14, lle'r oedd 460 o brentisiaethau ar lefel 2, a 30 ar lefel 3.

Er mwyn amcangyfrif y cyflenwad sgiliau posib ar gyfer diwallu anghenion y sector hwn, rydym wedi defnyddio arolwg cenedlaethol Gyrfa Cymru o ddyheadau gyrfaol pobl ifanc blwyddyn 10 mewn ysgolion uwchradd.
Yn 2015, roedd y canlyniadau o sampl o 5,398 o bobl ifanc yng Ngogledd Cymru yn dangos bod 4.15% (224) ohonynt wedi nodi y byddai gweithio mewn ffatrïoedd, diwydiant a gweithgynhyrchu yn eu 4 dewis uchaf o ran gyrfa, gyda 7% o'r rhain yn nodi mai dyma fyddai'r brif yrfa o'u dewis.

Yn ogystal â Choleg Cambria a Chanolfan Prifysgol Abertawe yng Nglannau Dyfrdwy, a fydd yn mynd i'r afael â sgiliau awyrofod o fis Medi 2016 ymlaen, bydd Canolfan Sgiliau a Thechnoleg Gweithgynhyrchu Uwch Glannau Dyfrdwy yn gyfleuster o'r radd flaenaf o ran masnacheiddio technolegau newydd a datblygu'r peirianwyr a'r technegwyr sydd eu hangen i'w gweithredu. Bydd y Ganolfan yn helpu i sefydlu clwstwr o fusnesau cadwyn gyflenwi a fydd yn cefnogi cwmnïau mawr yn yr Ardal Fenter.

Gyda'r amserlen weithredu o bosib yn cychwyn yn 2020, bydd y buddsoddiad cyhoeddus o £10 miliwn yn helpu i greu 100 o swyddi parhaol ac yn darparu lleoliad ar gyfer Cyfadran Beirianneg (cyfleuster allgymorth ar gyfer Coleg Cambria), Canolfan Cyfansoddion Uwch, ac o bosib Canolfan Gyfrifiadura Perfformiad Uchel yng Nglannau Dyfrdwy. Gyda'i gilydd, byddai'r rhain yn ffurfio canolfan ragoriaeth ar gyfer Gogledd Cymru ac yn gyfleuster i'w defnyddio gan gyflogwyr ac unigolion o ardaloedd daearyddol, trawsffiniol Mersi a Dyfrdwy.

Mae'r sector adeiladu yn gyflogwr allweddol yng Ngogledd Cymru, ac felly mae'n cael ei ystyried yn un o dri sector allweddol y rhanbarth yn y Cynllun.

Hwn yw'r pumed sector cyflogaeth mwyaf yng Ngogledd Cymru, ac mae 13.6% o'r holl alwedigaethau yn y rhanbarth yn dod o dan y pennawd 'crefftau medrus'. Mae'r sector hwn yn un o'r rhai mwyaf arwyddocaol o ran ei effaith ar sectorau eraill ledled Gogledd Cymru, a dylanwad y sectorau hynny arno yntau.

Mae'r sector ei hun yn amrywiol ac mae'n cwmpasu nifer o grefftau medrus sy'n gweithio mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau ac arbenigeddau, gan gynnwys: adeiladwaith adeiladau (preswyl/dibreswyl), seilwaith, diwydiannol, peirianneg sifil, gwasanaethau adeiladu, cynhyrchu deunyddiau adeiladu, gweithgareddau adeiladu arbenigol, gosod briciau, gwaith daear, technegol-drydanol, gwresogi ac awyru, plymio a gwresogi, ffensio, plastro, saernïaeth a gwaith coed, peintio, gwydro a thoi.

**8,500**
MAE ANGEN 8,500 O WEITHWYR Â SGILIAU ADEILADU NIWCLEAR PRIODOL AR ADEGAU PRYSURAF GWAITH ADEILADU WYLFA NEWYDD

**3,065**
ASTUDIODD 3,065 O BOBL GYRSIAU SEILIEDIG AR ADEILADU LEDLED GOGLEDD CYMRU YN 2014-15

**£2.7bn**
GWERTH £2.7BN O BROSIECTAU ADEILADU AM Y 10 MLYNEDD NESAF HEB GYNNWYS WYLFA NEWYDD

O edrych ar ddata gan Ystadegau Cymru ac Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES) gallwn weld bod 16,100 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector hwn (data 2014). Mae hyn yn uwch na'r ffigurau ar gyfer 2013 (13,800) a 2012 (14,100).

Mae'r cyfanswm yn cynnwys gwahanol elfennau o ran sgiliau a chymwyseddau, ac felly mae'n cynnwys tua 1,300 o weithwyr ar lefel rheoli a goruchwylio; 12,100 ym maes crefftau medrus, a 500 sy'n gweithredu peiriannau.

O ran y chwe sir yn y rhanbarth, Sir y Fflint sydd â'r nifer uchaf o bobl wedi'u cyflogi yn y sector hwn (4,000). Yn dilyn hynny, mae Wrecsam a Gwynedd gyda 2,800 yr un, yna Conwy a Sir Ddinbych gyda 2,500 yr un, ac yna Ynys Môn gyda 1,500.

Mae CITB a chyrff eraill yn y diwydiant yn amcangyfrif y bydd angen i ni gynyddu'r gwaith recriwtio yn y sector er mwyn bodloni gofynion penodol, gan gynnwys datblygu arbenigeddau ym maes adeiladu niwclear. Bydd hyn yn ychwanegol at y cynnydd yn y galw am fricwyr, peirianwyr sifil, penseiri a chrefftwyr pren ledled y rhanbarth.

**57%**
57% O'R GWEITHLU ADEILADU RHANBARTHOL RHWNG 25 A 49 OED

**34%**
34% O'R GWEITHLU ADEILADU RHANBARTHOL YN 50+ OEDT

**9%**
9% O'R GWEITHLU ADEILADU RHANBARTHOL RHWNG 16 A 24 OED

Mae'n bosib y bydd 8,500 o weithwyr adeiladu yn Wylfa Newydd ar yr adegau prysuraf, felly mae'n amlwg mai dim ond un rhan o bump o'r swyddi ar gyfer y prosiect hwn fyddai gweithlu adeiladu presennol Ynys Môn yn gallu eu llenwi, a hynny pe bai pob un ohonynt yn gadael eu cyflogaeth bresennol. Felly byddai'n rhaid ymestyn cyfleoedd adeiladu i ranbarth ehangach Gogledd Cymru er mwyn ateb y galw yn realistig, heb gyfyngu hynny i Ogledd Orllewin Cymru yn unig fel y mae rhai pobl wedi'i awgrymu wrth roi eu sylwadau ar Wylfa.

Pan fydd y prif gontractwyr yn rhyddhau gwybodaeth am y sgiliau a'r niferoedd y bydd eu hangen, bydd yn ddefnyddiol iawn i sefydliadau blaenllaw yn y diwydiant, fel CITB, ac i ddarparwyr addysg yn enwedig, er mwyn gallu cynllunio a hybu cyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd gyrfa yn effeithiol yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect.

Ar hyn o bryd, mae Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria yn cynnig rhaglenni o gyrsiau cadarn a pherthnasol sy'n ymwneud ag adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mae'r ddau ddarparwr yn wynebu anawsterau wrth i sylwebwyr alw arnynt i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigiant a niferoedd y myfyrwyr maent yn eu derbyn, ond heb wybodaeth fwy penodol nid yw myfyrwyr, dan ddylanwad eu rhieni'n benodol, yn fodlon dilyn llwybr nad oes canlyniad clir iddo neu nad oes gwybodaeth benodol o ran amserlen a maint y gwaith.

**Her i'r sector yng Ngogledd Cymru yw codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc, yn enwedig merched, o'r cyfleoedd sydd ar gael yn y sector. Bydd hyn yn helpu i newid canfyddiadau pobl o'r diwydiant ac yn cau'r bylchau mewn sgiliau yn y dyfodol a'r prinder tymor canolig posib o ganlyniad i weithlu sy'n heneiddio, yn cynnwys galw am sgiliau adeiladu technegol ac arbenigol.**

Pe bai Wylfa Newydd yn cael ei eithrio o ragolygon data'r sector hwn, byddai'n dal i ehangu er gwaethaf hynny, gydag amcangyfrif o gynnydd cyfartalog o 3.7% o ganlyniad i'r gyrwyr allweddol eraill o dwf economaidd a fydd yn effeithio ar y sector, gan gynnwys y gwaith biomas gwerth £800 miliwn ar Ynys Môn a'r cyfleuster adennill ynni Parc Adfer Wheelabrator yng Nglannau Dyfrdwy.

Yn ogystal â phrosiectau unigol ar raddfa fawr, rhagwelir y bydd twf sylweddol yn y sector tai o ganlyniad i'r bwriad o adeiladu tai newydd ledled y rhanbarth yn unol â'r Cynlluniau Datblygu Unedol. Mae Cymdeithas Dai Clwyd Alyn, sy'n rheoli dros 5,500 o dai, yn enghraifft gyfredol o ehangu yn y sector tai. Ar hyn o bryd, mae ganddynt 23 o brosiectau tai newydd yn cael eu datblygu ledled Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys a Wrecsam, gan gynnwys 154 o unedau i'w rhentu a 26 i'w rhentu neu i'w prynu.

Mae datblygu'r sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol yn hanfodol er mwyn parhau i ehangu'r sector hwn yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â chreu cyfleoedd i wella sgiliau'r gweithlu presennol – gyda llawer ohonynt wedi'u cyflogi mewn busnesau micro a busnesau bychain neu'n hunangyflogedig.

Mae hybu prentisiaethau yn y sector yn faes allweddol sy'n rhoi cyfleoedd i gyflogwyr ac i unigolion sy'n gobeithio dechrau gweithio yn y sector hwn a datblygu ynddo. Mae cefnogaeth gan ddarparwyr yn y rhanbarth yn parhau i esblygu er mwyn ateb y galw a'r disgwyliadau, ond gall gwaith hyrwyddo a darpariaeth hyblyg gynorthwyo'r gwaith o ddiwallu cyfleoedd ac anghenion masnachol.

Os yw'r rhanbarth am gyfrannu at gyflawni'r targedau cenedlaethol, sef 100,000 o brentisiaethau newydd, mae angen i'r sector adeiladu yng Ngogledd Cymru ddatblygu ac ehangu'r ymarfer gorau presennol o ran yr hyn mae darparwyr yn ei gyflawni ar lefel leol. Ar hynny, ceir trafodaethau i osod isafswm cyfleoedd newydd i brentisiaid gyda phrosiectau rhanbarthol blaenllaw , fel rydym eisoes wedi'i weld gyda phrosiect Carchar Gogledd Cymru a chwmni 'Lend Lease' o ran ei ymrwymiad i greu 100 o brentisiaethau newydd erbyn cwblhau'r gwaith adeiladu yn nhymor yr Hydref 2017.

Mewn perthynas â meysydd penodol o ran sgiliau a daearyddiaeth, a'r hyn sy'n briodol o ran anghenion y rhanbarth, bydd angen ystyried yn ofalus y cytundeb gyda datblygwyr prosiectau o ran cymalau yn ymwneud â'r gymuned, sy'n cynnwys ymrwymo i ddarparu cyfleoedd am brentisiaethau, hyfforddeiaethau a lleoliadau gwaith.

Yn ogystal â'r prosiectau cyfredol a thrawsffurfiol sydd wedi'u rhestru yn y tablau isod, mae'n bosib y bydd anawsterau llafur yn y sector adeiladu yng Ngogledd Cymru o ganlyniad i brosiectau eraill yn cychwyn ar yr un adeg.

Mae'r rhain yn cynnwys prosiect gwerth £60 miliwn i adeiladu ffordd osgoi yng Nghaernarfon a fydd yn cychwyn fis Rhagfyr 2016; adeiladu 600+ o adeiladau masnachol a phreswyl yn Sir y Fflint fel rhan o brosiect gwerth £50 miliwn; gwaith a gwelliannau ar y priffyrdd gwerth £50 miliwn a fydd yn cychwyn yn nes ymlaen yn 2016 ar Ynys Môn; posibilrwydd y bydd amserlenni ar gyfer gwaith ar yr A55 yn cael eu symud er mwyn manteisio ar arian gan yr UE cyn 2018; a bydd y gwaith ar Barc Gwyddoniaeth Menai yn cychwyn ddiwedd 2016, sydd werth oddeutu £47 miliwn.



Galw yn y Dyfodol:
GOSODWYR BRICS
CREFFTAU PREN
MECANICS PEIRIANNAU
PEIRIANYDDION SIFIL
PENSEIRI

Mae arolwg cenedlaethol blynyddol yn cael ei gynnal gan Gyrfa Cymru yng nghyswllt dyheadau gyrfaol dysgwyr CA4. Yn 2015, roedd y canlyniadau o sampl o 5,398 o bobl ifanc yng Ngogledd Cymru yn dangos bod 13.22% (714) ohonynt wedi nodi y byddai gweithio ym maes adeiladu yn eu 4 dewis uchaf o ran gyrfa, gyda 3.9% (211) yn nodi mai dyma fyddai'r brif yrfa o'u dewis. O blith y rhai a nododd mai adeiladu oedd y brif yrfa o'u dewis, dywedodd 42 y byddent yn chwilio am brentisiaeth, 85 y byddai'n well ganddynt aros mewn coleg Addysg Bellach, a 48 y byddai'n well ganddynt aros yn yr ysgol.

## GWAITH ADEILADU MEWN PROSIECTAU TRAWSFFURFIOL YNG NGOGLEDD CYMRU

| | UNED | AMCAN DYDDIAD DECHRAU'R PROSIECT |
|---|---|---|
| Cynllun Biomass, Ynys Môn | 1,200 | 2017 |
| Canolfan Sgiliau Gweithgynhyrchu Uwch & Canolfan Technoleg, Galnnau Dyrfrdwy | 500 | 2020 |
| CEM Berwyn, Wrecsam | 800 | PRESENNOL |
| Land & Lakes, Ynys Môn | 400 | 2017 |
| Northern Gateway, Sir Y Fflint | 1,000 | 2020 |
| Parc Adfer, Cyfleuster Adfer Ynni, Galnnau Dyrfrdwy | 300 | 2017 |
| Warren Hall, Galnnau Dyfrdwy | 1,000 | 2018 |
| Wylfa Newydd | 8,500 | 2019 |

Bydd angen recriwtio niferoedd uwch o weithwyr newydd yn y sector yn y rhanbarth er mwyn diwallu anghenion y prosiectau uchod o ganlyniad i niferoedd y gweithlu presennol, lle mae 34% o'r gweithwyr dros 50 oed a does dim digon o weithwyr ifanc newydd yn ymuno â'r sector er mwyn cymryd lle'r rhai sy'n gadael, ac i fodloni'r gofynion a'r disgwyliadau cynyddol yn sgil y prosiectau uchod.

Yn ogystal â'r prosiectau trawsffurfiol, mae gwaith parhaus yn cael ei wneud gan y sector ledled Gogledd Cymru fel rhan o'r prosiectau isod:

| | ENW PROSIECT | GWERTH £M | DYDDIAD CYCHWYN | SECTOR |
|---|---|---|---|---|
| **Sir y Fflint** | Rhaglen Adfywio a Strategaeth Tai (SHARP) | 500 | HYD 15 | TAI NEWYDD |
| **Ynys Môn** | Parc Gwyddoniaeth Menai | 45 | TACH 16 | ARLOESEDD |
| **Sir y Fflint** | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | 19 | ION 15 | NID TAI |
| **Sir Ddinbych** | Ysgol (estyniad / gwelliannau) | 15 | TACH 15 | NID TAI |
| **Gwynedd** | 146 Tai & 28 Fflat | 13 | GORFF 14 | TAI NEWYDD |
| **Sir Ddinbych** | Is-orsaf trydan / Cebls | 12 | EBRILL 15 | ISADEILEDD |
| **Ynys Mon** | Ysgol | 9 | RHAG 15 | NID TAI |
| **Sir y Fflint** | Gorsaf Trawsnewidydd | 9 | MEH 13 | ISADEILEDD |
| **Sir y Fflint** | 96 Unedau Preswyl Estyniad i Neuadd Chwaraeon | 6 | MAW 14 | TAI NEWYDD |
| **Wrecsam** | Estyniad i Neuadd Chwaraeon | 5 | MEDI 15 | NID TAI |
| **Wrecsam** | Uned ddiwydiannol / warws | 5 | MAW 16 | DIWYDIANNOL PREIFAT |

Ffynhonnell: CITB – Dadansoddi Prosiect Glenigan

**Mae'r sector creadigol a digidol yn gyflogwr arloesol allweddol yng Ngogledd Cymru, ac felly mae'n cael ei ystyried yn un o sectorau twf y rhanbarth yn y Cynllun.**

| 17% | 11,000 | 25% |
|---|---|---|
| CYNNYDD O 17% YN NIFER Y MENTRAU YN Y SECTOR HWN RHWNG 2010 A 2015 YNG NGOGLEDD CYMRU | YN CAEL EU CYFLOGI YN Y SECTOR HWN YNG NGOGLEDD CYMRU AR HYN O BRYD | MAE 25% O'R BOBL LEDLED CYMRU A GYFLOGIR YN Y SECTOR HWN YNG NGOGLEDD CYMRU |

Mae'r sector, sy'n ymgorffori is-sectorau sy'n cynnwys cyhoeddi, teledu, fideo, ffilm, theatr, radio, hysbysebu, Cysylltiadau Cyhoeddus, gemau, celfyddydau perfformio a ffotograffiaeth, yn parhau i esblygu fel un o brif ddiwydiannau economaidd-gymdeithasol Gogledd Cymru, ac mae hyn yn cael ei nodweddu yn y farchnad lafur gymwys iawn, gyda 68% o'r gweithlu yn meddu ar gymhwyster lefel gradd o leiaf.

Yn ôl UKCES, disgwylir i gyflogaeth yn y sector Adloniant a Chyfryngau Creadigol dyfu ledled y DU, ac mae'r twf hwn yn debygol o ganolbwyntio ar swyddi lefel uwch (rheolwyr, gweithwyr proffesiynol a gweithwyr proffesiynol cysylltiol). Bydd y cynnydd yn y galw am sgiliau STEM wedi'u cyfuno â thalent greadigol yn allweddol wrth ddatblygu cyrsiau AU ac AB, ac i lwyddiant y sector Creadigol a Digidol yng Ngogledd Cymru.

Mae cyflogwyr yn nodi bod prinder sgiliau gan weithwyr newydd ar draws diwydiannau'r Cyfryngau Creadigol yng Nghymru, gan gynnwys sgiliau manwerthu a marchnata (41% o gyflogwyr), arwain a rheoli (39%), sgiliau iaith Gymraeg (33%) a defnyddio pecynnau meddalwedd penodol i'r sector (30%).

## GALW AM SGILIAU YN Y SECTOR AR GYFER GOGLEDD CYMRU

| TWF CYNHYRCHU AR Y TELEDU | ARLOESI GYDA PHLATFFORMAU DIGIDOL NEWYDD | CADW A HYRWYDDO TALENT YN Y RHANBARTH | HYRWYDDO EIN SGILIAU I'R FARCHNAD FYD-EANG |
|---|---|---|---|

Mae hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth yn elfennau sy'n allweddol i dwf parhaus y sector. Amcangyfrifir bod 15% o'r holl fentrau newydd a grëwyd yng Ngogledd Cymru yn y 5 mlynedd diwethaf yn y Sector Creadigol a Digidol, ac mae hyn yn debygol o dyfu ar sail y cynnydd mewn arloesi, symudedd a digideiddio yn y sector ar y cyfan.

## Cyfanswm y busnesau yn y Sector Creadigol a Digidol

| | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 80 | 75 | 80 |
| Gwynedd | 235 | 245 | 250 |
| Conwy | 165 | 180 | 175 |
| Sir Ddinbych | 145 | 150 | 160 |
| Sir y Fflint | 235 | 255 | 290 |
| Wrecsam | 180 | 195 | 205 |
| GOGLEDD CYMRU | 1,040 | 1,100 | 1,160 |
| CYMRU | 4,820 | 5,170 | 5,425 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR), y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

## TWF DIGIDOL



Fel y nodir ar y map hwn, mae mwy a mwy o gwmnïau yng Ngogledd Cymru sy'n cefnogi'r economi ddigidol ehangach gydag arbenigedd mewn deallusrwydd digidol sy'n cwmpasu arloesedd a meddalwedd a datblygu gemau cyfrifiadurol.

Mae bod yn agos i ardaloedd sydd â chlwstwr o fusnesau, fel Lerpwl a Swydd Gaer, yn fuddiol o ran y galw cynyddol am sgiliau yn y rhanbarth, ac yn enwedig datblygu sgiliau digidol sy'n cefnogi ein sectorau twf a sectorau allweddol eraill, ynghyd â phrosiectau trawsffurfiol rhanbarthol yng Ngogledd Cymru.

Mae canolbwyntio ar y sector hwn yn rhanbarthol fel sector twf yn cyd-fynd â bwriad Llywodraeth Cymru. Nododd Edwina Hart, cyn-Weinidog yr Economi, yn 2015 fod y "Diwydiannau creadigol yn un o'r sectorau blaenoriaeth sy'n tyfu gyflymaf. Rydyn ni eisiau sefydlu Cymru fel canolfan ragoriaeth ryngwladol".

**927**
O BOBL YN ASTUDIO CYRSIAU CELF A DYLUNIO CREADIGOL MEWN ADDYSG UWCH YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2015

**3,175**
O BOBL YN ASTUDIO CYRSIAU CREADIGOL A DIGIDOL MEWN ADDYSG BELLACH YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2015

**25**
O BRENTISIAETHAU AR LEFELAU 3 A 4 YN Y SECTOR YN 2015

**Dyma rai datblygiadau arfaethedig a rhai sydd ar y gweill ledled y sector yng Ngogledd Cymru, sy'n ysgogi'r galw am sgiliau ac arbenigedd yn y sector ymhellach:**

- EHANGU A DATBLYGU GALERI CAERNARFON
- BUDDSODDI YNG NGHANOLFAN DIWYDIANNAU CREADIGOL GLYNDŴR
- PONTIO YM MHRIFYSGOL BANGOR
- HWB CREADIGOL WRECSAM YM MARCHNAD Y BOBL
- DATBLYGIAD GWERTH £15M YN THEATR GOGLEDD CYMRU YN YR WYDDGRUG

Mae'r sector yng Ngogledd Cymru mewn lleoliad delfrydol yn strategol ac yn ddaearyddol ar gyfer bodloni'r gofynion cynyddol sydd ynghlwm wrth ddatblygu rhwydwaith a chlwstwr creadigol ymhellach drwy ddefnyddio prosiectau allweddol blaenllaw, a chynyddu datblygiadau a chymwyseddau o ran sgiliau yn yr is-sectorau priodol. Mae cysylltu'n well â chyfleoedd yn y sector yn Iwerddon, yn Lerpwl, ym Manceinion, ac yn y Media City yn Salford Quays, yn ogystal â'r canolfannau yn Ne Cymru, i gyd yn gyfleoedd y gallai Gogledd Cymru eu cefnogi, a'u harwain mewn rhai achosion, pe baem yn cysoni ein sgiliau drwy gydweithio a chysylltu'n rhanbarthol ac yn cynyddu ac yn hybu llwybrau priodol i'r sector, gan gefnogi'r gwaith o wella sgiliau'r gweithlu presennol.

Yn ddiweddar, mae cwmnïau TG ym mharc busnes Parc Menai ym Mangor wedi gorfod recriwtio staff o'r tu allan i'r ardal, er ei fod yn agos at sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Mae hyn yn amlygu'r galw am gydweithio gwell rhwng busnesau yn y sector a darparwyr addysg yn gyffredinol. Mae pryder cynyddol bod y galw'n fwy na'r cyflenwad ym maes technolegau ar y we, a gallai methu â mynd i'r afael â'r cysylltiad cynyddol rhwng addysg a diwydiant gael effaith ar ein cwmnïau gwasanaethau digidol a data lefel uchel sy'n tyfu, fel AVOX a Moneypenny.

Mae pwysau cynyddol ar weithwyr proffesiynol yn y diwydiant yng Ngoledd Cymru o ganlyniad i ddatblygiadau sy'n newid yn gyflym ym maes technoleg a'r galw am fod yn fwy masnachol. Mae yna gyflogwyr mawr yn y sector yng Ngogledd Cymru, megis BBC Cymru Wales, Theatr Clwyd a chwmnïau cynhyrchu annibynnol fel Rondo Media, Cwmni Da, Antena, Recordiau Sain a Chwmni Chwarel, ac mae angen i ni gydweithio fel rhanbarth er mwyn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am gymwysterau a hyfforddiant sgiliau lle bo hynny'n briodol.
Hefyd, mae angen rhagor o gydweithio rhwng y clwstwr o gyfryngau Cymraeg yng Ngogledd Orllewin Cymru a'r cyfryngau creadigol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r galw am sgiliau yn y rhanbarth, i ddarparu cyllid cyfartal ac i fodloni gofynion y sector, fel y twf yn yr is-sector animeiddio.

Mae Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug yn enghraifft o gyflogwr sydd â 130 o aelodau staff a chynlluniau arfaethedig i ehangu. Mae hyn yn amlygu'r galw am dwf yn y sector yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, a fyddai'n cynnwys canolfan ddiwylliant ar gyfer mentrau creadigol a digidol, gyda'r potensial i gynnig gofodau deori i entrepreneuriaid newydd sy'n bwriadu dechrau neu ddatblygu eu gweithgareddau. Byddai hyn hefyd yn helpu i hybu arloesi a chael pobl i ymuno â'r sector yn gyffredinol drwy brentisiaethau, gan adeiladu ar gyfraniad presennol y theatr mewn cynllun Prentisiaethau Theatr Technegol Cymru gyfan, lle mae cyfranogwyr yn treulio blwyddyn yn datblygu eu sgiliau ac yn gweithio tuag at gymhwyster Lefel 3.

**Mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn un o brif gyfranwyr economi Gogledd Cymru, a rhagwelir y bydd yn ehangu ac yn denu rhagor o fuddsoddiad. Mae'n cael ei ystyried yn un o'r sectorau twf ar gyfer sgiliau a chyflogaeth ledled y rhanbarth yn y Cynllun, ac mae digon o gyfleoedd i ddatblygu dulliau arloesol o gyflawni er mwyn diwallu anghenion cleientiaid, ac i hybu llwybrau gyrfa cynaliadwy a datblygol er mwyn ymateb i'r galw cynyddol.**

**45,000**
O BOBL YN CAEL EU CYFLOGI AR DRAWS Y SECTOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGOGLEDD CYMRU

**2,000+**
O FUSNESAU LEDLED Y RHANBARTH YN Y SECTOR EANG HWN

**500**
NO SWYDDI NEWYDD YN MYND I GAEL EU CREU BOB BLWYDDYN AM YR 20 MLYNEDD NESAF YN Y SECTOR HWN YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau gan gynnwys nyrsio, nyrsio deintyddol, gwasanaethau cymorth gofal iechyd, gwasanaethau fferyllol, gwasanaethau cymdeithasol, gofal plant, gofal yr henoed, gofal preswyl a gofal cartref. Hefyd mae cysylltiadau â gweithgareddau yn y maes 'Gwyddorau Bywyd', gan gynnwys technoleg feddygol, gwasanaethau fferyllol, meddygaeth adfywiol a niwrowyddoniaeth.

Bydd newidiadau yng Ngogledd Cymru yn arwain at newid o ganolbwyntio ar ofal eilaidd i ganolbwyntio ar ofal sylfaenol, gofal yn y gymuned a chamau ataliol gan ddarparu gofal arferol mor agos â phosib i'n cymunedau yn heriol o ran disgwyliadau, gofynion ac anghenion sgiliau ac, o bosib, yn cyfrannu at y problemau recriwtio a hyfforddi presennol.

Mae'n rhaid blaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio yn y sector gofal, yn ogystal â llenwi swyddi meddygol, nyrsio a chymunedol, er mwyn sicrhau bod y sector yng Ngogledd Cymru yn gynaliadwy. Mae recriwtio meddygon teulu yn enwedig yn heriol, ac mae'r anawsterau parhaus o ran recriwtio gweithwyr i swyddi meddygon teulu a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau ledled economi iechyd Gogledd Cymru yn risg sylweddol i'r gweithlu er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau Gofal Sylfaenol yng Ngogledd Cymru yn y tymor hir ac yn y tymor byr.

Mae gan Ogledd Cymru broblem arall bosib o ran recriwtio ar gyfer y rolau hynny sy'n cael eu galw'n 'Weithwyr Iechyd Proffesiynol Eraill' (OHP) ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi fel fferyllwyr, therapyddion a meddygon cysylltiol, sy'n hanfodol i'r sector o ran bodloni gofynion er mwyn gwella gwasanaethau yn y gymuned ac i gadw pobl yn eu cartrefi yn hytrach na'u derbyn i'r ysbyty.

Mae denu, recriwtio a chadw llafur sy'n meddu ar y sgiliau priodol yn risg allweddol ar gyfer y sector hwn yng Ngogledd Cymru wrth iddo orfod darparu i boblogaeth sy'n heneiddio gyda mwy o ofynion arbenigol.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Yn ôl dadansoddiad diweddar o'r gweithlu rhanbarthol yn 2014, roedd 229 o reolwyr yn gweithio mewn cartrefi gofal i bobl hŷn; 203 o Is-reolwyr/Rheolwyr cynorthwyol; 647 o Uwch Weithwyr Gofal; a 3,632 o Weithwyr Gofal. Mae demograffeg y garfan hon ar y cyfan yn dangos mai'r grŵp oedran mwyaf o ran gweithwyr yn y sector gofal preswyl oedd pobl rhwng 41 a 50 oed, a dim ond 14% o'r gweithlu oedd o dan 25 oed. Roedd y data hefyd yn dangos bod 49% o'r gweithlu ym maes gofal preswyl i bobl hŷn o dan 40 oed, a 51% dros 41 oed. O ran proffil rhywedd, roedd 19% o'r gweithlu yn ddynion ac 81% yn fenywod.

Roedd yr un dadansoddiad o ofal cartref wedi cofnodi bod 159 yn gweithio fel Rheolwyr; 143 o Is-reolwyr/ Rheolwyr cynorthwyol; 305 o Uwch Weithwyr Gofal; a 3,397 o Weithwyr Gofal. Mae demograffeg y garfan hon ar y cyfan yn dangos bod 26% o'r gweithwyr yn y sector gofal cartref rhwng 41 a 50 oed, a 15% o'r gweithlu o dan 25 oed. Mae proffil rhywedd y gweithlu gofal cartref yn dangos bod 19% o'r gweithlu yn ddynion ac 81% yn fenywod.

**61%**
O WEITHWYR GOFAL MEWN GOFAL PRESWYL YN MEDDU AR Y DIPLOMA LEFEL 2 PRIODOL YNG NGOGLEDD CYMRU

**51%**
O WEITHWYR GOFAL MEWN GOFAL CARTREF YN MEDDU AR Y DIPLOMA LEFEL 2 PRIODOL YNG NGOGLEDD CYMRU

**72%**
MAE ANGEN I 72% O SEFYDLIADAU WELLA A GLOYWI SGILIAU EU STAFF YN Y FLWYDDYN I DDOD

Mae data hefyd yn dangos bod gan 82% o'r Uwch Weithwyr Gofal yng Ngogledd Cymru'r cymwysterau a argymhellir, sef Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ymarfer Uwch i Oedolion), neu Ddiploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion).

Mae recriwtio a chadw staff ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn broblem o hyd. Mae hyn yn enwedig ar gyfer y rhai sydd wedi'u cyflogi yn y sectorau gofal cartref a phreswyl, lle mae staff yn newid yn aml, mae'r cymwysterau priodol yn amrywio ac nid yw llwybrau gyrfa yn cael eu hybu'n rhagweithiol.

Mae arolygon diweddar o'r sector yng Ngogledd Cymru yn amlygu problemau o ran sgiliau staff presennol a staff newydd, a gwelwyd gostyngiad o 8% mewn gweithwyr gofal cartref cymwys. Gallai hyn fod yn rhannol o ganlyniad i'r cynnydd yng nghyfanswm nifer y staff sy'n ymuno â'r sector heb gymwysterau - o'r 730 o weithwyr gofal cartref a gafodd eu recriwtio yn 2014, dim ond 27% oedd â'r cymhwyster a argymhellir.

**10,005**
O WEITHGAREDDAU DYSGU YN Y SECTOR HWN MEWN ADDYSG BELLACH YNG NGOGLEDD CYMRU YN YSTOD 2014-15

**1,679**
O FYFYRWYR YN ASTUDIO PYNCIAU CYSYLLTIEDIG Â MEDDYGAETH MEWN PRIFYSGOLION YNG NGOGLEDD CYMRU YN YSTOD 2014-15

**3,270**
O BRENTISIAETHAU MEWN GOFAL IECHYD A GWASANAETHAU CYHOEDDUS LEDLED GOGLEDD CYMRU YN YSTOD 2014-15

Bu gostyngiad yn nifer y gweithgareddau dysgu mewn Addysg Bellach yn y sector hwn yn 2014-15, ar ôl codi i 15,215 o weithgareddau yn 2013-14. Roedd 12,250 o weithgareddau dysgu yn 2012-13. Bu gostyngiad yn nifer y rhaglenni prentisiaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus a gofal iechyd yng Ngogledd Cymru hefyd, o 3,945 o raglenni yn 2013-14. Roedd 3,545 o raglenni yn 2012-13.
Cyfanswm nifer y bobl a gyflogir yn y Sector Iechyd yng Ngogledd Cymru (rhan-amser ac amser llawn):

## CYFANSWM NIFER Y BOBL A GYFLOGIR YN Y SECTOR IECHYD YNG NGOGLEDD CYMRU (RHAN-AMSER AC AMSER LLAWN):

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 2,600 | 2,300 | 2,500 |
| **Gwynedd** | 8,900 | 8,800 | 9,300 |
| **Conwy** | 7,000 | 7,000 | 7,200 |
| **Sir Ddinbych** | 9,700 | 9,900 | 10,600 |
| **Sir y Fflint** | 4,500 | 4,800 | 4,800 |
| **Wrecsam** | 10,700 | 11,000 | 11,200 |
| GOGLEDD CYMRU | **43,400** | **43,800** | **45,600** |

Ffynhonnell: NOMIS - BRES

## PROSIECTAU PRESENNOL AC YN Y DYFODOL SY'N SEILIEDIG AR ALW

**£3.9M**
CANOLFAN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL INTEGREDIG GWERTH £3.9 MILIWN WEDI'I HARIANNU GAN LYWODRAETH CYMRU YM MLAENAU FFESTINIOG

**£5M**
GWAITH AILDDATBLYGU YSBYTY TYWYN A GWASANAETHAU NEWYDD GWERTH £5 MILIWN WEDI'U HARIANNU GAN LYWODRAETH CYMRU

**£2M**
£2 FILIWN AR UNED MÂN ANAFIADAU NEWYDD YN YSBYTY LLANDUDNO

**£7M**
£7 MILIWN AR GANOLFAN GOFAL DEMENTIA NEWYDD A AGORWYD GAN BARC PENDINE YNG NGHAERNARFON

**£1.4M**
£1.4 MILIWN TUAG AT GANOLFAN IS-RANBARTHOL NEWYDD AR GYFER GOFAL NEWYDD-ENEDIGOL DWYS I OGLEDD CYMRU

**£5M**
£5 MILIWN AR GANOLFAN IECHYD INTEGREDIG NEWYDD I AGOR YN Y FFLINT YN 2017

Fel y cyflogwr mwyaf yn y sector hwn yng Ngogledd Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn chwilio am ffyrdd newydd o weithio ac o foderneiddio'r gweithlu yn ystod y tair blynedd nesaf, ac mae'r gallu i ddenu gweithwyr newydd yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r sefydliad.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eisoes wedi dechrau gweithio ar ei strategaeth 'Denu Gweithwyr', sy'n amlinellu amrywiaeth o fentrau fydd y Bwrdd Iechyd yn eu rhoi ar waith er mwyn ceisio denu, recriwtio a chadw gweithlu sydd â'r sgiliau gofynnol, mewn amgylchedd sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol ac arferion gweithio iach a hyblyg.

Dylid cynyddu a hybu gwaith recriwtio a llwybrau gyrfa gwell ar gyfer pobl ifanc yn y sector yng Ngogledd Cymru, yn enwedig gan fod arolwg diweddar gan Gyrfa Cymru o ddisgyblion Blwyddyn 10 wedi amlygu bod 10.2% (548) o bobl ifanc wedi nodi bod gweithio ym maes lles, gwaith cymdeithasol neu ofal personol yn un o'u 4 dewis uchaf o ran gyrfa, gydag 1.6% (87) yn nodi mai dyma fyddai'r brif yrfa o'u dewis.

**Mae'r sector twristiaeth a lletygarwch yn parhau i fod yn un o brif gyfranwyr economi Gogledd Cymru, a rhagwelir y bydd yn ehangu ac yn cael rhagor o fuddsoddiad, gan symud oddi wrth gynigion tymhorol yn unig at raglen o atyniadau mwy parhaol drwy gydol y flwyddyn. Mae'n cael ei ystyried yn un o'r sectorau twf ar gyfer sgiliau a chyflogaeth ledled y rhanbarth yn y Cynllun.**

**£1.8M**
YN CAEL EI GREU BOB BLWYDDYN GAN Y SECTOR TWRISTIAETH A LLETYGARWCH AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU

**37,000**
O BOBL YN GWEITHIO YN Y SECTOR LEDLED GOGLEDD CYMRU

**3,340**
O FUSNESAU SY'N SEILIEDIG AR DWRISTIAETH YN GWEITHREDU LEDLED GOGLEDD CYMRU AR HYN O BRYD

Mae Gogledd Cymru yn cyfrannu at draean y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac mae twf y sector Twristiaeth Awyr Agored yn enwedig wedi arwain at ailystyried y sector yn gyffredinol, a'i newid er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd mae'r atyniadau newydd hyn yn eu cynnig.

Mewn dadansoddiad yn y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth ar gyfer Gogledd Cymru yn 2015, nodwyd y byddai cynnydd o 3,000 o swyddi newydd yn y sector yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf ar sail datblygiadau parhaus yn unol â'r amcangyfrifon presennol. Mae'r ffigur hwn yn dal yn gyson gan fod disgwyl i Ogledd Cymru barhau i berfformio'n well nag ardaloedd eraill yng Nghymru.

Mae'r ehangu parhaus yn golygu bod galw am fuddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant os yw'r sector yn gyffredinol yn bwriadu symud oddi wrth sylfaen dymhorol o ran cyflogaeth, a dechrau hybu a thargedu cyfleoedd a llwybrau gyrfa i staff presennol a darpar staff yn y sector.

Er bod Gogledd Cymru wedi hen ennill ei phlwyf fel cyrchfan i dwristiaid gan ganiatáu i'r diwydiant lletygarwch ymateb i anghenion nifer cynyddol yr ymwelwyr, mae ei dibyniaeth flaenorol ar y tymhorau wedi arwain at brinder staff cymwys lefel uchel sy'n cael eu denu at yrfa yn y sector yng Ngogledd Cymru.

Mae natur dymhorol a dros dro llawer o'r swyddogaethau a chyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r cyhoedd mewn busnesau ledled y sector hwn wedi golygu bod llai o fuddsoddiad yn y sgiliau 'meddal' sydd eu hangen ar gyflogwyr ac y mae cwsmeriaid yn eu disgwyl.

**570**
O BRENTISIAETHAU DYSGU SEILIEDIG AR WAITH YM MAES LLETYGARWCH YN 2014-15

**170**
O BRENTISIAETHAU DYSGU SEILIEDIG AR WAITH YM MAES HAMDDEN YN 2014-15

**4,580**
O WEITHGAREDDAU DYSGU YM MAES TWRISTIAETH, HAMDDEN AC ARLWYO LEDLED GOGLEDD CYMRU YN 2014-15

Er bod cynnydd cyson wedi bod o ran prentisiaethau lefel 2 a 3 yn y sector eang hwn, nid oes digon o ddarpariaeth lefel 4 yn cael ei chynnig yn y rhanbarth.

Mae adroddiad Sgiliau BUEGC ar y diwydiant twristiaeth awyr agored yng Ngogledd Cymru yn 2015 yn nodi nad oes dull cydlynol sy'n mynd i'r afael â chymwysterau twristiaeth awyr agored ac nad oedd cynnwys y cyrsiau a gynigiwyd yn paratoi ymgeiswyr yn llawn ar gyfer swyddi yn y gweithle gan nad oeddynt yn cynnwys tystysgrifau arweinyddiaeth arbenigol na'r profiadau angenrheidiol mewn meysydd allweddol yn y sector.

Mae gwaith ymgynghori ac adborth gan arbenigwyr yn y diwydiant, fel Paul Donovan, Cadeirydd Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru, a'r sector Twristiaeth Awyr Agored yng Ngogledd Cymru, yn awgrymu bod angen gwell dealltwriaeth o ddiben prentisiaethau a'r hyn maen nhw'n ei gynnig. Yn yr un modd, mae'n rhaid i gynnwys y prentisiaethau adlewyrchu anghenion y sector ac felly mae angen gallu bod yn hyblyg i raddau er mwyn mynd i'r afael â'r newidynnau lu sy'n bodoli yn y sector awyr agored yn benodol. Er enghraifft, does dim ots pa mor dda yw prentis pan fydd yn cwblhau ei brentisiaeth, os nad yw wedi cael o leiaf ddau neu dri o gymwysterau gan Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol, mae'n annhebygol y bydd yn cael swydd ystyrlon. Felly, mae Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol yn hollbwysig i ddyfodol prentisiaid.

Yn ystod y 3 blynedd diwethaf, er bod y sector wedi bod yn ehangu fel diwydiant yng Ngogledd Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar dwristiaeth awyr agored a buddsoddiad gan ffrydiau cyllid o Ewrop ymysg eraill, mae nifer y bobl ifanc sy'n ymgymryd â phrentisiaethau yn y sector hwn wedi gostwng, ac mae cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith wedi gostwng 11%. Bydd angen gwrthdroi hyn os ydyn ni fel rhanbarth am barhau i fod yn gystadleuol, gyda chyflenwad llafur cymwys sydd â sgiliau 'caled' a 'meddal' er mwyn bodloni gofynion cynyddol y sector hwn sy'n ehangu.

Mewn arolwg blynyddol gan Gyrfa Cymru o ddisgyblion Blwyddyn 10 ledled Cymru, o'r 5,398 o ymatebwyr yng Ngogledd Cymru, nododd 21.4% (1,153) fod gweithio ym maes hamdden, chwaraeon a thwristiaeth yn un o'u 4 dewis uchaf o ran gyrfa, gyda 42% o'r bobl ifanc hyn yn nodi mai dyma fyddai'r brif yrfa o'u dewis. Dyma oedd y sector uchaf o 29 o ran dewis cyntaf y disgyblion.

Yr her ar gyfer y sector yw penderfynu sut bydd yn manteisio i'r eithaf ar dwf yr atyniadau a'r cyfleusterau gydol y flwyddyn, yn enwedig yn yr is-sector antur ac awyr agored, sy'n denu pobl i ddefnyddio is-sectorau eraill fel lletygarwch. Mae'r gofynion sgiliau ledled y sector yn amrywio ac mae angen arbenigeddau mewn meysydd allweddol fel dringo mynyddoedd, caiacio, ogofa ac ati.

Fodd bynnag, yn unol â sectorau allweddol a sectorau twf eraill, mae cyflogwyr yn chwilio am sgiliau meddal a pharod at waith mewn darpar staff cyn eu penodi, ac fe anogir y sector addysg i gydweithio'n agosach â'r sector yn gyffredinol gan adeiladu ar y gwaith gan ddarparwyr AB yn y rhanbarth, sydd eisoes yn darparu cefnogaeth dysgu galwedigaethol i bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed ym meysydd arlwyo a lletygarwch.

Mae'r sector bwyd a diod yn parhau i fod yn un o brif gyfranwyr economi Gogledd Cymru, a rhagwelir y bydd yn ehangu ac yn cael rhagor o fuddsoddiad. Mae'n cael ei ystyried yn un o'r sectorau twf ar gyfer sgiliau a chyflogaeth ledled y rhanbarth yn y Cynllun.

| | | |
|---|---|---|
| **60%** O GYNNYDD YN NIFER Y PRENTISIAETHAU YN Y SECTOR DROS Y 5 MLYNEDD DIWETHAF | MWY O ARALLGYFEIRIO YM MAES AMAETH TUAG AT WEITHGYNHYRCHU BWYD A DIOD | **1,000** 1,000 O SWYDDI NEWYDD POSIB YN Y SECTOR LEDLED GOGLEDD CYMRU YN Y PUM MLYNEDD NESAF |

Fel rhanbarth, mae nifer fwy o bobl na'r cyfartaledd cenedlaethol wedi'u cyflogi yn y sector yng Ngogledd Cymru o gymharu â gweddill Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o fentrau yn y sector twf hwn hefyd yn tyfu bob blwyddyn, wrth i'r rheini yn y sector amaethyddol arallgyfeirio ochr yn ochr ag entrepreneuriaid annibynnol sy'n arwain at gynnydd blynyddol yn y sector yn gyffredinol.

Mae newidiadau yn y sector amaethyddol yn benodol wedi arwain at arallgyfeirio i is-sectorau twristiaeth a llety, gyda chynhyrchu bwyd a diod yn rhan bwysig o hyn. Mae hyn wedi golygu bod busnesau micro a Busnesau Bach a Chanolig yng Ngogledd Cymru wedi elwa o ganlyniad i'r galw am gynnyrch premiwm sy'n defnyddio cynnyrch lleol ac yn cael eu cynhyrchu'n lleol. Mae'r galw parhaus gan gwsmeriaid yn golygu y bydd angen i nifer o gynhyrchwyr ystyried ehangu eu busnes, ac felly bydd gofyn am sgiliau penodol i ddiwallu anghenion y farchnad. Mae ein partneriaid addysg wedi parhau i gefnogi cynhyrchwyr bwyd yn y rhanbarth drwy gyfleusterau fel Glynllifon ger Caernarfon a'r Ganolfan Datblygu Bwyd arfaethedig yn Wrecsam. Mae Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria eisoes yn darparu cymorth arbennig i fodloni gofynion cyflogwyr o ran sgiliau fel datblygu staff ar gyfer prentisiaethau, diplomâu, tystysgrifau a dyfarniadau Lefel 2 a 3. Mae hyn yn ogystal â theilwra cyrsiau byrion a datblygu mwy o ffocws ar dechnoleg a chynhyrchu bwyd, a rhoi arweiniad er mwyn helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i hybu a datblygu cysylltiadau cadwyn gyflenwi gwell rhwng proseswyr a darparwyr bwyd.

Yn 2014-15, denodd y Ganolfan Technoleg Bwyd yn Llangefni £770,000 o incwm. Roedd llawer o hwn o ganlyniad i ateb y galw gan waith masnachol i gefnogi sgiliau yn y ganolfan ac ar safle'r cyflogwr, yn ogystal â chyllid ychwanegol gan y Rhaglen Datblygu Gwledig.

Mae'r gwaith o ehangu er mwyn diwallu gofynion y sector eisoes wedi arwain at gynhyrchwyr yng Ngogledd Cymru yn cael eu cydnabod yn fyd-eang; mae Halen Môn o Ynys Môn a Becws Henllan yn Sir Ddinbych yn enghreifftiau o gwmnïau sy'n allforio eu cynnyrch i leoliadau y tu allan i'r DU.

Gan fod mwy o gydnabyddiaeth yn y farchnad a mwy o alw, mae'r anghenion sgiliau'n cynyddu yn y sector er mwyn bodloni gofynion y farchnad a gofynion ym maes cynhyrchu a thechnoleg bwyd.

Yn ddiweddar, mae partneriaethau arloesol wedi'u sefydlu yn y rhanbarth, fel partneriaeth campws Grŵp Llandrillo Menai yng Nglynllifon gyda chwmni Patchwork Pâté, sydd wedi ennill gwobrau am ei gynnyrch; a gwaith parhaus Coleg Cambria yn cefnogi hyfforddiant a datblygu gyda Rowan Foods. Dim ond dwy enghraifft yw'r rhain o'r gefnogaeth bresennol i'r sector sy'n gallu rhoi sylfaen i'r gwaith o ddatblygu sgiliau ymhellach wrth i ofynion y sector gynyddu.

Mae llawer o gwmnïau wedi ehangu yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf yng Ngogledd Cymru. Mae'r cwmni cynhyrchu bwydydd parod wedi rhewi, KK Fine Foods, yn un o'r rhain ac mae wedi creu 100 o swyddi ychwanegol yn 2016 o ganlyniad i fuddsoddiad o £833,000 i ehangu ei safle yng Nglannau Dyfrdwy.

Mae The Village Bakery hefyd wedi cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn adeiladu becws enfawr gwerth £16 miliwn.  Pe rhoddir caniatâd i'w adeiladu, bydd y cyfleuster 215,000 troedfedd sgwâr – yr un maint â thri chae pêl-droed – yn cael ei adeiladu ar y tir ger eu dwy fecws bresennol ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam, ac yn creu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen arnynt. Mae nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi gan The Village Bakery wedi dyblu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i tua 400, a chafodd ei ddyfarnu'r cwmni sy'n tyfu gyflymaf yn 2013 a'r cynhyrchydd sy'n tyfu gyflymaf yn 2015.

**Ymhlith yr heriau sy'n wynebu'r sector mae'r galw o ran capasiti i ehangu yn seiliedig ar y buddsoddiad sydd ei angen yn sgiliau'r gweithlu cynhyrchu presennol, yn ogystal â'r sgiliau sy'n ofynnol i gefnogi technoleg ar gyfer datblygu cynnyrch**

Gan ystyried y datblygiadau ym maes technoleg bwyd ac arloesi er mwyn cynnal a datblygu'r gyfran yn y farchnad, efallai y bydd angen i'r sector Addysg Uwch ystyried a deall sut gallant gefnogi sgiliau lefel uwch yn y sector, gan gyd-fynd â'r rhai sydd eisoes yn cael eu cefnogi mewn Addysg Bellach. Er nad oes cyrsiau penodol wedi'u hanelu at ddiwydiannau cynhyrchu na thechnoleg bwyd ym mhrifysgolion Gogledd Cymru, mae cyrsiau gradd fel Cemeg a Nanodechnoleg yn cael eu cynnig, sy'n ymwneud yn rhannol â'r diwydiannau technoleg bwyd, a byddai modd addasu a marchnata'r rhain ymhellach yn ôl y gofyn er mwyn ateb y  galw am sgiliau yn y dyfodol.

Mae angen denu pobl ifanc at y diwydiant a'i hybu fel llwybr gyrfa cynaliadwy, gan godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd gyrfa sydd ynghlwm â phynciau cysylltiedig â STEM er mwyn cael swyddi fel technolegwyr, peirianwyr a thechnegwyr bwyd – ac mae mwyfwy o alw am bob un o'r rhain yn y sector.

Mae cynhyrchwyr fel Caws Glanbia, a Bwydydd Vion ar Ynys Môn; Hufenfa De Arfon a Bragdy Mŵs Piws yng Ngwynedd, Blas ar Fwyd yng Nghonwy, a Llaeth y Llan yn Sir Ddinbych, yn ogystal â chynhyrchwyr rhyngwladol fel Kellogg's yn Wrecsam, i gyd yn profi datblygiadau pellach o ran cynhyrchu ac mae angen gwella sgiliau'r staff presennol a recriwtio staff newydd o ganlyniad i hynny. Un enghraifft o ddatblygiadau sy'n cefnogi'r galw hwn yw'r ganolfan arloesi a'r academi bobi gwerth £4 miliwn yn Wrecsam, sy'n darparu cyfleusterau er mwyn helpu i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o bobyddion crefftus.

Mae'r twf ym mhoblogrwydd gwyliau bwyd a diod rhanbarthol (gŵyl fwyd Conwy yw un o'r mwyaf a'r hynaf yn y rhanbarth) yn ffordd o arddangos cyfoeth ac ehangder y busnesau micro, yr entrepreneuriaid a'r bobl hunangyflogedig dalentog sy'n rhan o sector bwyd a diod y rhanbarth. Maent hefyd yn rhoi cyfle i fusnesau dyfu ac i hyrwyddo a rhwydweithio â busnesau eraill, yn ogystal â recriwtio a datblygu gyrfaoedd. Mae hyn yn sicrhau gwaith yn y dyfodol mewn cadwyni cyflenwi yn y sectorau arlwyo, gwestai a thwristiaeth ar lefel ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol o ganlyniad i'r galw cynyddol am gynnyrch lefel uchel o ansawdd dda sydd wedi'i gynhyrchu gan dalent a llafur medrus yn y rhanbarth am bris cystadleuol.


**Mae gan Ogledd Cymru gyflenwad o lafur sy'n fedrus, yn symud ac yn heneiddio. Gyda dau ffactor cadarnhaol ac un ffactor negyddol posib, dylem barhau i weithio ar y cyd fel rhanbarth i fynd i'r afael â'r ffaith bod angen i'n gweithlu presennol wella eu sgiliau, er mwyn iddynt barhau i fod yn gymwys yn dechnegol a meddu ar y cymwysterau cyfredol; gan gyflwyno'r dalent sydd gennym ni yn y dyfodol, o ran y cyflenwad o weithwyr newydd iau, i ofynion y diwydiant a'r gweithle sy'n ychwanegol at eu cymwysterau academaidd, technegol a galwedigaethol er mwyn gwella eu sgiliau sylfaenol, 'meddal' a 'chaled'.**

Mae angen system o gymwysterau ar Ogledd Cymru sy'n gweithio yn y farchnad lafur. Er bod ein darparwyr addysg ar bob lefel yn llwyddo i barhau i ddatblygu cwricwlwm i fodloni dyheadau yn awr ac yn y dyfodol, mae'n rhaid i ni, drwy sicrhau bod mwy o gyflogwyr yn cael eu cynrychioli yn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru, gael arbenigwyr o'r diwydiant i helpu i bennu'r wybodaeth, y sgiliau a'r dulliau asesu y dylid eu hystyried fel y bo'n briodol, ar gyfer cymwysterau perthnasol sy'n darparu llwybr at waith o fewn ein prosiectau sy'n trawsffurfio'r rhanbarth fel Wylfa Newydd, a'n prif sectorau economaidd rhanbarthol fel ynni, gweithgynhyrchu ac adeiladu.

I helpu ein cyflenwad o sgiliau yn y dyfodol ym marchnad lafur Gogledd Cymru ym mhob un o'n prif sectorau twf, mae angen i ni sicrhau cysondeb a chydlynu profiad gwaith yn rhanbarthol er mwyn i leoliadau gwaith o safon allu cael eu hystyried yn orfodol ar gyfer pob cymhwyster technegol. Er bod enghreifftiau lleol o arfer gorau ledled Gogledd Cymru, nid oes cysondeb, ac felly bydd cael y dull rhanbarthol hwn sydd ar y cyd ac wedi'i gydlynu gan bartneriaid yn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn helpu ein marchnad lafur yn y dyfodol i gael gwybodaeth dechnegol a sgiliau ymarferol, ac yn y pen draw yn cynnal ac yn ehangu ein cronfa o dalent.


Gyda llwybrau clir a dilys at swyddi medrus, bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i'n pobl ifanc feithrin y sgiliau a fydd yn eu galluogi i gael swyddi mwy diogel â chyflogau gwell, gan ein bod yn debygol o weld mwy byth o sgiliau a swyddi yn symud o fewn ein cyflenwad llafur yng Ngogledd Cymru dros y 5-10 mlynedd nesaf.

Mae angen i ni hefyd ystyried bod defnyddio mwy o dechnoleg yn effeithio ar leoliad ein marchnad lafur, o gofio'r cynnydd rhagweledig yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref, yn ogystal â llafur yn symud i mewn ac allan o'r ardal a allai effeithio ar y rhanbarth yn dilyn y penderfyniad Brexit diweddar.



Mae'r canlyniadau uchod yn dangos bod nifer y bobl o oed gweithio heb gymwysterau yn parhau i leihau, o 8.1% yn 2013 a gyhoeddwyd yn y Cynllun Rhanbarthol blaenorol, i 7.6% yn 2015. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod 33,000 o unigolion yn dal i fod heb gymwysterau ledled Gogledd Cymru.


Mae'r symud tuag at farchnad lafur a phoblogaeth oed gweithio fwy cymwys yn parhau ar bob lefel yn y tabl uchod, ond yn arbennig yn y categori sydd â chymhwyster lefel 4 ac uwch. Mae'r canlyniad blaenorol ar gyfer 2013 sef 33.9% yn rhanbarthol, bellach wedi cynyddu i 36.3% ac mae'r duedd o ragori ar y cyfartaledd cenedlaethol i Gymru yn parhau o ran gweithlu rhanbarthol cymwys.




Mae'r gyfradd diweithdra ar gyfer dynion a merched rhwng 16 a 64 oed wedi gostwng hefyd rhwng 2014 a 2015. Gwelwyd canran y dynion di-waith yn y categori oedran hwn yn gostwng o 6.6% (11,000) yn 2014 i 5.3% (8,800) yn 2015; ac i ferched yn yr un categori oedran, o 4.7% (6,900) i 4.4% (6,600).


O ran siroedd, ar Ynys Môn y gwelwyd y ganran uchaf o ddynion di-waith yn 2015 gyda 7.2% (1,300) o'r rheini rhwng 16 a 64 oed yn ddi-waith o gymharu â 6.2% (1,000) yn 2014. Gwelwyd cynnydd yng nghanran y merched di-waith yng Nghonwy hefyd, gan gynyddu o 3.5% (1,200) yn 2014 i 6.6% (1,600) yn 2015.

Mae cynlluniau a gaiff eu rhedeg gan sefydliadau trydydd sector, yr undebau llafur a darparwyr hyfforddiant sector preifat i gyd yn allweddol i helpu'r bobl hynny nad ydynt yn rhan o'r farchnad lafur mwyach, neu sy'n wynebu risg o fewn y farchnad honno, i wella eu sgiliau a'u dyheadau posib ac i symud eu sgiliau. Mae angen i'r rhai dros 25 oed sy'n economaidd anweithgar, yn arbennig, gael mentrau cydlynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i oresgyn y rhwystrau niferus a chymhleth, yn aml, sy'n atal pobl rhag cael swyddi. Bydd prosiectau rhanbarthol fel OPUS yn allweddol i fynd i'r afael â'r rhain ac yn cynnig sgiliau a chyfleoedd swyddi priodol i unigolion.




Yng Ngogledd Cymru, yn seiliedig ar ein dau ddarparwr AU mwyaf, mae 49.65% o'r holl fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn astudio yn eu blwyddyn gyntaf, a'r ffigurau lleol yw 48.67% ar gyfer Bangor a 51.21% ar gyfer Glyndwr.

Canran yr holl israddedigion yn y ddau brif ddarparwr AU o'r holl fyfyrwyr yw 79.74%, ac ar gyfer ôl-raddedigion yn y rhanbarth, 20.27% yw'r ganran. Ym Mangor, 75.29% yw canran yr holl israddedigion sy'n astudio yno a 24.70% yw'r ganran ar gyfer ôl-raddedigion. Ar gyfer Glyndŵr, 86.84% yw canran yr holl israddedigion sy'n astudio yno ac 13.22% yw'r ganran ar gyfer ôl-raddedigion.




Yn ôl yr ystadegau cyffredinol a gyhoeddwyd gan HESA ym mis Gorffennaf 2016 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014-15, cyfradd cyflogadwyedd y myfyrwyr sy'n hanu o'r DU a adawodd y Brifysgol gyda graddau cyntaf a aeth ymlaen i gael swyddi oedd 94.3%, sef y meincnod ar gyfer Bangor a 93.5% ar gyfer Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, y mae'r ddwy ganran yn uwch na 93% sef yr hyn a nodwyd gan HESA ar gyfer Prifysgol Aberystwyth.

Mae Glyndŵr Wrecsam yn ymrwymedig i gynyddu niferoedd ei myfyrwyr israddedig llawn amser o'r DU/UE i o leiaf 5,400 erbyn 2019/20 a chyn cyhoeddi penderfyniad BREXIT, niferoedd ei myfyrwyr rhyngwladol llawn amser yn Wrecsam i o leiaf 10% o boblogaeth y myfyrwyr llawn amser erbyn 2019/20. Er i niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol leihau yn Aberystwyth yn sgil y goblygiadau diweddar, nid yw'n hysbys a fydd hyn yn effeithio ar sefydliadau yng Ngogledd Cymru.

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn cynnig amrywiaeth o raglenni israddedig ar ei phrif gampws yn Wrecsam sy'n berthnasol i brif sectorau'r diwydiant a nodwyd yn y cynllun hwn, fel peirianneg a gweithgynhyrchu uwch, gwasanaethau ariannol, y sector iechyd, y diwydiant bwyd a diod a'r diwydiannau creadigol. Mae'r brifysgol yn rhan o rwydwaith y Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) drwy OpTIC Glyndŵr ym Mharc Technoleg Llanelwy (peirianneg opteg) a thrwy'r Ganolfan Deunyddiau Cyfansawdd ym Mrychdyn. Consortiwm yw'r AMRC sy'n cynnwys sefydliadau blaenllaw yn y diwydiant a phrifysgolion ledled Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr.

Mae'r brifysgol o'r farn hefyd bod ei safle yn Llaneurgain yn strategol bwysig i'w hagenda twf. Fel safle mewn lleoliad da sydd â chysylltiadau uniongyrchol â thrafnidiaeth ar goridor yr A55 mae gan y brifysgol y potensial i fod yn 'borth addysg i Ogledd Cymru'. Fel rhan o'r broses o ddatblygu Strategaeth Ystadau ar draws y brifysgol gyfan, mae'n bwriadu gweithio gyda grwpiau o randdeiliaid allweddol i bennu cwmpas yr opsiynau posib i ddatblygu'r safle, gyda'r nod cyffredinol o ddatblygu rhaglenni addysgol sy'n cyfateb yn uniongyrchol i'r agenda sgiliau yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Gan weithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r safle hwn, mae ganddi'r potensial i helpu i sbarduno twf economaidd, gwella cyfleoedd y gadwyn gyflenwi a sicrhau lle i dyfu neu ddatblygu busnesau yn ogystal â rhaglenni addysg pwrpasol sy'n ymateb i'r prinder sgiliau ac i'r agenda twf yn rhanbarthol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, ac ar draws Gogledd Cymru.

Yn ôl beirniaid annibynnol, mae 77% o gynnyrch ymchwil Prifysgol Bangor yn "rhagorol yn rhyngwladol" neu'n "flaenllaw yn fyd-eang" ac mae'r Brifysgol wedi'i rhestru yn y 39ain safle yn y DU (heb gynnwys sefydliadau arbenigol a phrifysgolion un cynnig), yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014. Mae dros hanner Ysgolion academaidd Bangor wedi cael eu rhestru yn yr 20 uchaf yn y DU am ansawdd eu hymchwil. Bangor yw'r 90ain (a'r unig Brifysgol yng Nghymru) yn nhabl Prifysgolion Mwyaf Rhyngwladol yn y Byd Addysg Uwch y Times 2015, ac mae ar y brig yng Nghymru o ran 'Boddhad Myfyrwyr' am yr ail flwyddyn yn olynol ac mae ymhlith y 10 prifysgol orau yn y DU yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr.

Mae Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi Pontio a gwblhawyd yn ddiweddar yn borth newydd pwysig sy'n galluogi busnesau a'r gymuned i fanteisio ar y digwyddiadau, yr arbenigedd a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y Brifysgol. Mae'n ganolbwynt ar gyfer arloesi mewn gwyddoniaeth, technoleg a'r celfyddydau creadigol ac mae'n rhoi mwy o gefnogaeth i agweddau allweddol ar yr agenda STEM ranbarthol.

Mae'r Brifysgol yn aelod o rwydwaith Prifysgolion Santander, sy'n cynnig arian ar gyfer interniaethau a lleoliadau ar gyfer myfyrwyr o fewn busnesau i weithio ar brosiectau sy'n diwallu anghenion busnesau ac yn helpu myfyrwyr i fod yn fwy cyflogadwy a gwella eu sgiliau entrepreneuraidd. Prifysgol Bangor sydd ar y brig hefyd o ran rhaglen KESS Cymru (Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth), i ddatblygu ymchwil ôl-raddedig a sgiliau arloesi, mewn partneriaeth â busnesau bach a chanolig (ar lefel Meistr a PhD) drwy leoli myfyrwyr ôl-raddedig yn y busnesau hynny i weithio ar broblemau, materion a thasgau sy'n benodol i'r busnes.

Mae gan y Brifysgol Femoranda Cyd-ddealltwriaeth hefyd gyda phartneriaid rhanbarthol strategol, fel Pŵer Niwclear Horizon a Siemens Healthineers sydd, ynghyd ag amcanion ymchwil cydweithredol, yn ceisio cefnogi'r agenda sgiliau ranbarthol drwy ddatblygu dulliau o gadw a chyflogi graddedigion yng Ngogledd Cymru yn yr hirdymor yn ogystal â chydweithredu ar ymgysylltu addysgol sy'n gysylltiedig â hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd STEM ymhlith pobl ifanc.

**94.3%**

MAE 94.3% O FYFYRWYR SY'N HANU O'R DU SY'N GADAEL PRIFYSGOL BANGOR GYDA GRADD 1AF YN CAEL SWYDD

**15%**

AETH 15% O RADDEDIGION O BRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM I'R SECTOR GWEITHGYNHYRCHU

**54%**

MAE 54% O'R HOLL FYFYRWYR MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH YNG NGOGLEDD CYMRU YN FERCHED

Mae mwyafrif y myfyrwyr yn cofrestru'n rhanbarthol ar gyfer pynciau yn y gwyddorau biolegol, yna ar gyfer cyrsiau 'Astudiaethau Gweinyddol a Busnes' a hefyd 'Addysg' a 'Pynciau cysylltiedig â meddygaeth'.

Mae myfyrwyr o Gymru yn talu £3,810 ar hyn o bryd tuag at eu ffioedd dysgu, waeth ymhle maent yn astudio yn y DU. Llywodraeth Cymru sy'n talu am y gweddill, sef hyd at £5,190 y flwyddyn. Mae'n bolisi sy'n golygu bod gan fyfyrwyr o Gymru lai o ddyledion na myfyrwyr o Loegr ond roedd hynny'n golygu buddsoddiad cenedlaethol o £238m yn 2014/15, y gwelwyd y rhan fwyaf ohono'n mynd dros y ffin. Mae angen ystyried sut y gall gweithgareddau sy'n seiliedig ar alw gan gyflogwyr gael eu hintegreiddio'n well ag addysg uwch er mwyn cadw myfyrwyr mewn swyddi lleol ar ôl gorffen astudio.

Mae partneriaid addysg bellach yng Ngogledd Cymru wedi bod yn ymestyn eu darpariaeth addysg uwch hefyd. Mae hyn yn cynnwys Coleg Cambria yn gweithredu Canolfan AU o Lannau Dyfrdwy mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe mewn ymateb i'r ffaith bod angen cefnogi sgiliau uwch yn y sector awyrofod. Gwelwyd GLLM hefyd yn gorffen gwaith yn ddiweddar ar ei Ganolfan Prifysgol ar Gampws Rhos mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor. Yn ôl asesiad cenedlaethol diweddar o ddarpariaeth AU yn GLLM, allan o 62 o'r colegau AB a adolygwyd ledled y DU, roedd GLLM yn un o'r 4 a gafodd eu canmol am wella'r cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr.

Yn sgil ymdrech gynyddol ar ran rhai cyrff cenedlaethol i hyrwyddo ac annog myfyrwyr o Gymru i aros yng Nghymru i astudio addysg uwch, daeth 37.84% (4,074) o'r holl fyfyrwyr a gofrestrodd yng Nghymru i astudio ym Mangor, a 54.83% (3,456) ar gyfer yr un garfan ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam yn ystod 2014-15.

Dros yr un cyfnod, mae Bangor yn parhau i ddenu cyfran fawr o'i myfyrwyr o'r tu hwnt i Gymru, gyda 39.47% (4,250) yn dod o Loegr a 17.71% (1,907) yn rhyngwladol o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE. Mae Glyndŵr Wrecsam yn denu 22.53% (1,420) o'i myfyrwyr o Loegr, ac 14.82% (934) yn rhyngwladol o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE.

Mae Gogledd Cymru yn gartref i ddau o'r darparwyr addysg bellach mwyaf yng Nghymru gyda Grŵp Llandrillo Menai yng ngorllewin y rhanbarth, a Choleg Cambria yn y dwyrain.

**22,255**
O DDYSGWYR WEDI COFRESTRU YN GLLM YN 2014-15

**20,285**
O DDYSGWYR WEDI COFRESTRU YNG NGHOLEG CAMBRIA YN 2014-15

Yn 2014-15, agorodd Grŵp Llandrillo Menai Hwb Adeiladu a Pheirianneg newydd yn Nolgellau; cafodd arian gan Lywodraeth Cymru i ymestyn canolfan ragoriaeth yn Llangefni i gefnogi datblygiadau'r sector ynni yn cynnwys Wylfa Newydd, a datblygodd berthnasau gwaith gyda Phŵer Niwclear Horizon a Lockheed Martin i ddatblygu hyfforddiant; ac ymhlith llwyddiannau ei fyfyrwyr gwelwyd cynrychiolwyr o'r Grŵp ym mhencampwriaeth fyd-eang Sgiliau'r Byd yn São Paulo, Brasil.

Yn 2014-15, cafodd Coleg Cambria ddyfarniad 'rhagorol' gan arolygwyr Estyn yn seiliedig ar gyfraddau llwyddiant ar gyfer cyrsiau sylweddol a defnyddio technoleg i gefnogi dysgu ac mae amrywiaeth y partneriaethau a ddefnyddir i gefnogi'r coleg yn helaeth; mae'r coleg yn cynnal ac yn datblygu cysylltiadau agos â chyflogwyr - yn arbennig yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy; ac ymhlith llwyddiant ei fyfyrwyr bydd pum myfyriwr yn rhan o garfan y DU ar gyfer rownd derfynol Sgiliau'r Byd 2017 yn Abu Dhabi.

Cafwyd gostyngiad o 19,000 yn nifer y myfyrwyr a gofrestrodd mewn SABau ledled Cymru rhwng 2013-14 a 2014-15. Cafwyd gostyngiad o 3,235 yn nifer y myfyrwyr a gofrestrodd yn GLLM yn ystod y cyfnod hwn, a gostyngiad o 1,035 yng Ngholeg Cambria.

**7,940**
O DDYSGWYR YN ASTUDIO PEIRIANNEG A THECHNOLEG GWEITHGYNHYRCHU YN EIN SABAU SY'N HANU O OGLEDD CYMRU

**4,790**
O DDYSGWYR YN ASTUDIO ADEILADU, CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG YN EIN SABAU SY'N HANU O OGLEDD CYMRU

**13,875**
O DDYSGWYR YN ASTUDIO IECHYD, GWASANAETHAU CYHOEDDUS A GOFAL YN EIN SABAU SY'N HANU O OGLEDD CYMRU

Er bod y niferoedd uchod o ddysgwyr a nodwyd ym meysydd gweithgynhyrchu, adeiladu a gofal yn adlewyrchu astudiaethau ar rai o brif sectorau twf economaidd y rhanbarth, mae nifer fawr o fyfyrwyr ym maes addysg bellach yng Ngogledd Cymru yn parhau i ddilyn cyrsiau manwerthu (9,505 o ddysgwyr), gweinyddu busnes a'r gyfraith (9,850) a'r celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi (5,345).

**86%**

YW'R GYFRADD LLWYDDIANT AR GYFER MYFYRWYR GLLM A CHOLEG CAMBRIA YM MAES ADEILADU – UWCH NA'R CYFARTALEDD CENEDLAETHOL SEF 82%

**84%**

YW'R GYFRADD LLWYDDIANT AR GYFER MYFYRWYR CAMBRIA YM MAES PEIRIANNEG A GWEITHGYNHYRCHU – UWCH NA'R CYFARTALEDD CENEDLAETHOL SEF 79%

**91%**

YW'R GYFRADD LLWYDDIANT AR GYFER MYFYRWYR GLLM YM MAES IEITHOEDD A DIWYLLIANT – UWCH NA'R CYFARTALEDD CENEDLAETHOL SEF 88%

Mae cyfuniad yr arbenigedd yn y sectorau twf a thraddodiadol yn golygu bod SABau yng Ngogledd Cymru ar flaen y gad ledled Cymru o safbwynt dysgu mewn sawl pwnc. Ymhlith yr enghreifftiau mae 37.87% o'r holl ddysgwyr AB yng Nghymru sy'n astudio Peirianneg a Gweithgynhyrchu, yn gwneud hynny yng Ngogledd Cymru; mae 38% o'r holl ddysgwyr yng Nghymru yn astudio Amaethyddiaeth a Gofal Anifeiliaid yma; 37.64% ar gyfer Manwerthu a Menter Fasnachol a 46.63% ar gyfer Addysg a Hyfforddiant.

Bydd yn fwyfwy o her i'r ddau goleg Addysg Bellach yn y rhanbarth ddenu rhagor o fyfyrwyr i ymgymryd â'u cyrsiau wedi'u sefydlu sy'n ymwneud ag adeiladu a pheirianneg er mwyn cael cyfleoedd yn y dyfodol. Mae hyn o ganlyniad i fyfyrwyr a'u rhieni sy'n gyndyn o symud ymlaen nes eu bod yn gweld cadarnhad y bydd cyfleoedd o brosiectau arfaethedig fel Wylfa Newydd yn cael eu gwireddu.

Er bod gan y sector AB berthnasau gwaith cadarnhaol â deiliaid prosiectau allweddol, gall rhagor o oedi o ran cyhoeddi a rhannu gofynion sgiliau a disgwyliadau swyddi gan ein prif brosiectau seilwaith a thrawsffurfio yn y rhanbarth effeithio'n andwyol ar y sector adeiladu yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'i gapasiti sgiliau a'i allu cystadleuol i ymateb yn effeithiol.

Heb ofynion clir gan ddatblygwyr o ran amser a nifer y swyddi a sgiliau erbyn diwedd 2016, bydd yn fwyfwy anodd cynllunio cwricwlwm yn effeithiol sy'n hyrwyddo datblygiad sgiliau a chyfleoedd yn y sector yn seiliedig ar lwybrau tryloyw at yrfaoedd, yn arbennig ar ôl gweld gostyngiad yng nghyfanswm y myfyrwyr ledled Gogledd Cymru sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau yn ymwneud ag adeiladu.

Yn 2014/15, roedd 3,065 o weithgareddau dysgu yn ymwneud ag adeiladu ac eiddo (amgylchedd adeiledig) mewn addysg bellach yng Ngogledd Cymru. Roedd y rhan fwyaf, 1,080, ar lefel 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol; roedd llai na 5 ar lefel mynediad; 940 ar lefel 1; 525 ar lefel 3 a 10 ar lefel 4. Mae hyn wedi gostwng o 4,150 yn 2013/14, lle'r oedd 1,430 ar lefel 1, 1,570 ar lefel 2, 715 ar lefel 3 a 45 ar lefel 4. Yn 2012/13, roedd 4,955 o weithgareddau.

Mae profiad diweddar yn seiliedig ar fodel Carchar Gogledd Cymru yn Wrecsam o bartneriaid AB yn gweithio gyda'r datblygwyr ac isgontractwyr drwy Academi Dysgu ac Uchelgais BUEGC ar y safle wedi bod yn amhrisiadwy - gan roi profiad i fyfyrwyr a darlithwyr o'r safle adeiladu mwyaf yng Nghymru a mynediad uniongyrchol a raglennir i'r safle hwnnw. Mae'r amlygiad ychwanegol i arferion rheoli prosiect ac adeiladu modern wedi cyfrannu'n gadarnhaol at eu sgiliau technegol ac ymarferol cyn dyfarnu cymhwyster sy'n eu helpu i symud ymlaen yn uniongyrchol at brentisiaethau neu swyddi. Mae'r gwaith a wnaed ar y cyd rhwng partneriaid BUEGC a chontractwyr y prosiect, Lend Lease, wedi cael ei gydnabod gan Wobr Rhagoriaeth Adeiladu genedlaethol am 'Arweinyddiaeth a Datblygu Pobl'.

Bydd datblygiadau pellach yn cynnwys y Ganolfan Sgiliau a Thechnoleg Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy, a gwaith ehangu'r Ganolfan Ynni yn Llangefni yn gwella ymhellach y ddarpariaeth AB bwrpasol yn unol â'n prif sectorau economaidd rhanbarthol. Mae angen buddsoddi mewn cyfleusterau ac adnoddau rhanbarthol blaenllaw newydd yng Ngogledd Cymru er mwyn llwyddo i ddenu, datblygu a chadw'r dalent a'r sgiliau sydd eu hangen i ateb y galw am gyflenwad gan brosiectau trawsffurfio a chyflogwyr yn y cadwynau cyflenwi cysylltiedig. Bydd hyn yn arwain hefyd at y canlyniad cynaliadwy tymor hwy o gael gweithlu medrus mewn hybiau rhagoriaeth cydnabyddedig a fydd yn hyrwyddo ac yn tyfu ein heconomi.

**Bagloriaeth newydd Cymru i alluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos medrusrwydd mewn sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd**

**Bydd Gogledd Cymru yn rhan o Raglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Rhanbarthol (REAP) MIT sy'n rhoi entrepreneuriaeth wrth wraidd y sbardun i greu swyddi a hybu economi Cymru**

Mae gwahanol gynigion ar gael yn genedlaethol ac yn rhanbarthol i helpu pobl ifanc, ac yn arbennig y rhai sy'n wynebu'r risg o bellhau oddi wrth y cyflenwad llafur yn y blynyddoedd i ddod.

Yng Ngogledd Cymru, drwy gydweithio'n rhanbarthol o fewn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, rydym wedi gweld un dull rhanbarthol o ddatblygu prosiectau sy'n canolbwyntio ar sgiliau priodol ar gyfer pobl ifanc fel "TRAC 11-24" ac "AD-TRAC" sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Mae'r ddau brosiect hyn yn disodli nifer o brosiectau lleol yn y rhanbarth a oedd ar wasgar mewn ardaloedd daearyddol bach nad oeddent yn rhannu adnoddau a gwybodaeth er budd y cleientiaid.

Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi fwyfwy pan fydd gan bobl ifanc sy'n newydd i'r farchnad lafur y 'sgiliau meddal' priodol, er nad yw pob cyflogwr yn buddsoddi yn y gefnogaeth sydd ei hangen i hyrwyddo a chyflenwi'r rhain.

**86%**

86% O AELODAU'R FFEDERASIWN BUSNESAU BACH WEDI NODI PWYSIGRWYDD PROFIAD GWAITH WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU RECRIWTIO

Mae'r cyflogwyr a gynrychiolir yng Ngogledd Cymru gan y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru oll yn gytûn bod cyngor gyrfa annibynnol ac o safon yn hollbwysig, yn enwedig gan fod mwy o bobl yn dilyn llwybrau galwedigaethol.
Mae cyflogwyr o'r farn y dylai ysgolion hyrwyddo llwybrau galwedigaethol yn well, fel prentisiaethau a swyddi dan hyfforddiant, ochr yn ochr ag astudiaethau academaidd. Dylai hyn ddigwydd cyn bod y disgyblion yn 16 oed er mwyn iddyn nhw a'u rhieni gael amser i ystyried y peth yn briodol.

Yn sgil newidiadau yn genedlaethol i gylch gwaith Gyrfa Cymru, gwelwyd newidiadau amlwg i'r gwasanaeth a gaiff ei gynnig a'i ddarparu yng Ngogledd Cymru. Dylem achub ar y cyfle yn awr yng Ngogledd Cymru i weithio gyda Gyrfa Cymru o fewn eu cylch gwaith newydd, ochr yn ochr â phartneriaid eraill i ysbrydoli ein cyflenwad llafur yn y dyfodol, a datblygu dull rhanbarthol o roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd gan amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid gwahanol, yn cynnwys darparwyr hyfforddiant galwedigaethol. Gan fanteisio ar brofiad blaenorol cydweithwyr Gyrfa Cymru a gaiff eu cyflogi yng Ngogledd Cymru o hyd, gallant weithio gyda phartneriaid y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn y rhanbarth i lywio'r gwaith o ddarparu "Pecyn Cymorth Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer Gogledd Cymru" a dull rhanbarthol o gefnogi llwybrau at gyfleoedd swyddi a gyrfaoedd cysylltiedig â STEM.

Bydd y cymorth a roddir i athrawon a thiwtoriaid o ran codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd economaidd rhanbarthol a'u cysylltiadau â'r cwricwlwm yn allweddol i godi ymwybyddiaeth ac addysgu pobl ifanc. Mae llawer o gyflogwyr yn nodi bod diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth athrawon o'r byd busnes yn her i'w recriwtio yn y dyfodol, ac yn rhanbarthol mae angen i ni gefnogi cyflogwyr ac athrawon i gydweithio'n agosach drwy raglen strwythuredig o weithgareddau a gwella sgiliau.

**Mae angen buddsoddi ymhellach mewn cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd yng Ngogledd Cymru er mwyn cefnogi darpariaeth Gyrfa Cymru ymhellach, ynghyd â chynigion pwrpasol gan ddarparwyr addysg i helpu i sicrhau cysondeb rhanbarthol. Mae angen ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cyfleuster cyngor gyrfa trawsffiniol hefyd i sicrhau mwy o gysondeb ac i sicrhau bod ein cyflenwad sgiliau yn ddigon hyblyg i ateb y galw.**

Mae cyflenwad marchnad lafur yn y dyfodol sydd â mwy o brofiad yn y gweithle ac amrywiaeth eang o sgiliau mwy 'meddal' yn ogystal â chymwysterau eisoes wedi'i nodi yn y Cynllun hwn.

Yr her ychwanegol i'r rhanbarth yw hyrwyddo'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n astudio pynciau STEM i ddiwallu anghenion y sectorau allweddol fel Ynni, Gweithgynhyrchu ac Adeiladu, yn ogystal â'r cymwyseddau STEM sy'n fwyfwy gofynnol yn ein sectorau twf fel Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Creadigol a Digidol, Bwyd a Diod yn ogystal ag elfennau sydd ar gynnydd yn y diwydiant Twristiaeth.

Dangosodd gwaith ymchwil blaenorol a gomisiynwyd gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn BUEGC ar weithgareddau STEM mewn ysgolion ledled Gogledd Cymru ddiffyg cydlynu a phrinder darpariaeth, yn arbennig ar lefel sylfaenol. Er mwyn ymdrin â STEM yn gadarn a thryloyw mewn modd sy'n dilyn hynt y myfyrwyr, sydd hefyd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran y rhywiau o fewn pynciau STEM yn nes ymlaen, mae angen ymagwedd ranbarthol sy'n ystyrlon ac yn gynaliadwy, wedi'i chydlynu gan ddefnyddio'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a swyddog STEM penodedig.

## CYRHAEDDIAD RHANBARTHOL PYNCIAU STEM

**64.3%**
O DDISGYBLION WEDI CAEL A*-C YN EU TGAU MATHEMATEG YNG NGOGLEDD CYMRU 2015

**85.2%**
O DDISGYBLION WEDI CAEL A*-C YN EU TGAU GWYDDONIAETH YNG NGOGLEDD CYMRU 2015

**61.1%**
O DDISGYBLION WEDI CAEL A*-C YN EU TGAU TGCH YNG NGOGLEDD CYMRU 2015

**80.4%**
O DDISGYBLION WEDI CAEL A*-C YN EU SAFON UWCH MATHEMATEG YNG NGOGLEDD CYMRU 2015

**77.6%**
O DDISGYBLION WEDI CAEL A*-C YN EU SAFON UWCH CEMEG YNG NGOGLEDD CYMRU 2015

**64.1%**
O DDISGYBLION WEDI CAEL A*-C YN EU SAFON UWCH TGCH YNG NGOGLEDD CYMRU 2015

Fel rhan o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF), roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru lunio map sylfaenol o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n wynebu'r risg o ymddieithrio rhag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant; a defnyddiwyd y wybodaeth hon wedyn i lywio'r Warant Ieuenctid.

Yng Ngogledd Cymru, mae'r Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu (EPC) wedi gweithio gyda chefnogaeth gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y BUEGC i gynnal dadansoddiad pellach o'r ddarpariaeth i ddeall y ddarpariaeth a gynigir i gefnogi ein cyflenwad o weithwyr yn y dyfodol nad ydynt ar y llwybrau traddodiadol at waith a hyfforddiant pellach ar hyn o bryd. Yn ôl y casgliadau cychwynnol sy'n deillio o'r gwaith hwn, mae angen i ni gael dull cyson ledled Gogledd Cymru, ac mae angen rhoi mwy o lais i'r person ifanc. Mae yna botensial i ddefnyddio wythnos Prentisiaeth Genedlaethol fel cyfle allweddol i amlygu'r ffaith bod angen cymorth pellach ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n wynebu'r risg o ymddieithrio rhag ein marchnad lafur yn y dyfodol.

Mae dadansoddiadau pellach yn awgrymu bod swyddi a hyfforddiant ar gyfer ein cyflenwad llafur yn y dyfodol o fewn y garfan hon o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n wynebu'r risg o ddod yn "NEET" yn cael eu cynnig yn bennaf o fewn y diwydiannau creadigol, arlwyo a lletygarwch, adeiladu a ffermio. Fodd bynnag, er bod dyblygu eang wedi bod yn y gorffennol o fewn gwasanaethau a oedd yn darparu canlyniadau mwy 'meddal' i bobl ifanc nad oeddent yn gweithio neu nad oeddent yn barod i weithio, mae prosiectau rhanbarthol a ariennir gan yr UE bellach ar waith yn cynnwys AD-TRAC ac OPUS sydd ar hyn o bryd ar y cam cynllunio busnes terfynol. Byddant yn nodi gwasanaethau ymyrraeth gynnar priodol, ac yn gweithio tuag at gau'r bylchau mewn darpariaeth a chefnogaeth i bobl y mae angen mwy o help arnynt i ddelio â phroblemau iechyd meddwl, a rhwystrau cymhleth i gael swydd.

**Mae angen dull mwy cyson yn y rhanbarth er mwyn cefnogi pobl ifanc sy'n wynebu'r risg o ymddieithrio rhag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae angen i lais y person ifanc gael mwy o sylw wrth ystyried sut y dylem gefnogi a chysoni gwaith 14-19, EPCs, ACL a phrosiectau lleol eraill wrth gefnogi pobl ifanc 16-24 oed agored i niwed ledled Gogledd Cymru**

Gan gydnabod bod blaenoriaethau prentisiaid newydd wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 19 oed a dros 20 oed, lle nad oes cyfyngiad ar gyfnod cyflogi prentisiaid uwch, gwelwyd cyfanswm y prentisiaid yn gostwng yn 2014-15 ledled Gogledd Cymru o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o ganlyniad i gyfyngiadau oedran. Er i'r garfan rhwng 16 a 19 oed ostwng, gellid dweud bod hyn yn rhannol oherwydd canran uchel o bobl ifanc yn aros mewn addysg yn 16 oed, yn arbennig yng ngogledd orllewin Cymru, ac felly bydd y galw am brentisiaid yn tueddu i ddenu dysgwyr dros 18/19 oed.

**5,565**
O FERCHED YN BRENTISIAID YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2014-15 O GYMHARU Â 6,710 YN 2013-14

**4,190**
O DDYNION YN BRENTISIAID YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2014-15 O GYMHARU Â 4,795 YN 2013-14

**9,755**
OEDD CYFANSWM Y PRENTISIAID YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2014-15 O GYMHARU AG 11,460 YN 2013-14

Yn ystod 2014-15, cafwyd cynnydd yn nifer y bobl rhwng 20 a 24 oed yn ymgymryd â phrentisiaethau - o 2,800 yn 2013-14 i 2,955 yn 2014-15. Mae'r duedd hon yn adlewyrchu ymrwymiad diweddar Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y prentisiaethau ar gyfer pob oed, gyda chyflogwyr a darparwyr yng Ngogledd Cymru eisoes yn gweithio ar y cyd tuag at gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Er bod arian yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer prentisiaethau i bobl rhwng 16 a 24 oed, ni chafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y prentisiaethau yn y grwpiau oedran hynny yn ystod y tair blynedd flaenorol. Gellir gweld manylion a dadansoddiad pellach yn Atodiad 1 i'r Cynllun.

**DYLAI YSGOLION WNEUD MWY I HYRWYDDO A DEALL GWERTH PRENTISIAETHAU I DDISGYBLION A'U RHIENI**

**MAE ANGEN HYRWYDDO CYNLLUNIAU PRENTISIAETH I RADDEDIGION YN WELL I GYD-FYND Â'N PRIF FEYSYDD BLAENORIAETH RHANBARTHOL**

**MAE PRENTISIAETHAU LEFEL UWCH YN PARHAU I GYNYDDU YNG NGOGLEDD CYMRU RHWNG 2013-14 A 2014-15**

Ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd prentisiaethau Uwch ar gyfer sectorau fel adeiladu yn ogystal â gweithgynhyrchu, er mwyn i ni ddatblygu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion rhanbarthol a dyheadau economaidd, gan gynnig y cyfle i weithwyr presennol, yn arbennig, ddatblygu'r sgiliau ychwanegol sydd eu hangen arnynt yn y gweithle ymhellach.

Mae llawer o'n cyflogwyr mwy o faint yn y rhanbarth yn cynnig rhaglenni prentisiaeth, gyda chynlluniau blaenllaw yn cael eu cynnig gan gwmnïau, fel Airbus yn cynnig 75 prentisiaeth bosib yn ymwneud ag awyrennau a 30 o brentisiaethau israddedig, o fis Medi 2016 ymlaen, yn ogystal â chyfleoedd graddedig mynediad uniongyrchol. Mae Lend Lease sy'n gyfrifol am adeiladu prosiect Carchar Gogledd Cymru (Carchar Berwyn) wedi ymrwymo i greu 100 o brentisiaethau erbyn i'r prosiect gael ei gyflawni yn ystod hydref 2017; dengys y ffigurau presennol fod bron 50 o brentisiaethau wedi cael eu creu hyd yn hyn.

Mae cwmnïau eraill yn cynnwys TATA Steel yn Shotton, sef un o'r gweithfeydd dur mwyaf proffidiol yn y DU, yn parhau i hyrwyddo a datblygu cyfleoedd prentisiaeth, a chynigiwyd 8 prentisiaeth benodol ym maes peirianneg yn 2016. Mae cwmnïau adeiladu fel Jones Brothers yn parhau i hyrwyddo ac annog prentisiaethau ym maes adeiladu cyffredinol a gweithredu peiriannau ac offer yn eu canolfan hyfforddiant achrededig yng Ngogledd Cymru.

Mae cwmnïau llai o faint yn y gadwyn gyflenwi yn y rhanbarth yn parhau i gefnogi'r cyfle i hyrwyddo prentisiaethau. Fodd bynnag, mae angen ymgysylltu fwyfwy â microfusnesau llai o faint i'w hannog i ystyried manteision cael prentis i gefnogi eu busnes. Mae llawer o'n cwmnïau TGCh a Digidol llai o faint eisoes wedi dechrau elwa o hyn, ac mae hyn yn helpu i ddatblygu'r sector twf hwn ymhellach ar gyfer y rhanbarth.

Os gall ysgolion baratoi pobl ifanc yn well drwy sicrhau bod ganddynt y sgiliau ychwanegol mwy 'meddal' sydd eu hangen arnynt i ddechrau mewn amgylchedd gweithio, fel sgiliau cyflwyno a chyfathrebu, ymhlith pethau eraill, bydd hyn hefyd yn helpu cyflogwyr sy'n gobeithio denu'r ymgeiswyr gorau ar gyfer eu cynlluniau hyfforddi a'u prentisiaethau. Mae cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau yng Ngogledd Cymru yn parhau i nodi bod diffyg sgiliau mwy 'meddal' ymgeiswyr prentisiaeth a diffyg ymwybyddiaeth o brotocol y gweithle yn dod i'r amlwg yn y cyfweliad, er gwaethaf eu cymwysterau priodol wrth wneud cais am gynlluniau o'r fath.

Mae darparwyr hyfforddiant preifat hefyd yn gangen darparu gadarn ar gyfer prentisiaethau a chymorth dysgu seiliedig ar waith ledled Gogledd Cymru, gan weithio gyda chyflogwyr ac unigolion i gefnogi datblygiad staff o lefel weithredol i lefel rheoli. Mae llawer o ddarparwyr hyfforddiant preifat yng Ngogledd Cymru yn arbenigo yn ein prif ddiwydiannau a sectorau twf ac economaidd, ac maent yn helpu i fynd i'r afael â materion cadw a pharatoi pobl; ac maent hefyd yn aelodau ar y cyd o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru sef y corff sy'n cynrychioli'r holl sefydliadau neu unigolion hynny sy'n gysylltiedig â'r diwydiant hyfforddiant, gan weithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru, darparwyr AB a Llywodraeth Cymru ymhlith rhai eraill.

**1,085**
O SWYDDI DAN HYFFORDDIANT YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2014-15 O GYMHARU Â 1,200 YN 2013-14

**535**
O GYFRANOGWYR AR RAGLENNI PAROD AT WAITH YN 2014-15 O GYMHARU Â 370 YN 2013-14

**4,705**
O GYFRANOGWYR DYSGU SEILIEDIG AR WAITH YN Y SECTOR GOFAL YN 2014-15

Mae cefnogi pobl i ddysgu'n barhaus yn y gweithle yn elfen allweddol o gynnal ein mantais gystadleuol fel rhanbarth o ran ein cyflenwad sgiliau a dylid ehangu hyn. Er bod cryn ffocws yn cael ei roi yn aml ar ein sgiliau yn y dyfodol, mae angen i ni hefyd gynnal, datblygu a thyfu ein marchnad lafur bresennol i fynd i'r afael â'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniant, creu cyfleoedd ar gyfer ymgeiswyr newydd, a thwf a datblygiad personol parhaus.

CYFLENWAD GOGLEDD CYMRU

Y pum prif sector a maes gweithgarwch ar hyn o bryd yn 2014-15 yng Ngogledd Cymru ar gyfer darparu gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith i unigolion yw:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y CYFRYNGAU, CYFATHREBU A CHYHOEDDI | MATHEMATEG | GOFAL A DATBLYGU PERSONOL | TECHNOLEG GWYBODAETH | BUSNES, RHEOLI AC ASTUDIAETHAU SWYDDFA |

Mae'r canlynol yn dilyn y meysydd a restrir uchod yn agos: adeiladu, peirianneg, arlwyo a lletygarwch, iechyd a diogelwch a gwerthiannau manwerthol a marchnata.

Mae dysgu seiliedig ar waith yn dod yn bwysicach byth i helpu i gadw dysgwyr, ond mae'n angenrheidiol yn ôl llawer o gyflogwyr sy'n wynebu problemau o hyd yn sgil y ffaith nad yw eu recriwtiaid newydd yn ddigon 'parod at waith' pan fyddant yn gadael addysg.

Mae bod yn 'barod at waith' yn rhywbeth y mae DWP a Gyrfa Cymru ymhlith eraill, yn cynnwys y Trydydd Sector, yn ymdrechu i fynd i'r afael ag ef, yn ogystal â rhwystrau eraill i waith ar gyfer ein cyflenwad llafur sy'n gysylltiedig â meysydd penodol fel sgiliau digidol, hygyrchedd trafnidiaeth ac mewn rhai achosion, iaith. Mae'r Trydydd Sector yn arbennig yn gwerthfawrogi cymorth a rhyngweithio wyneb yn wyneb lle y bo'n bosib, i fynd i'r afael yn uniongyrchol â chapasiti personol a phroblemau yn ymwneud â sgiliau, ac er mwyn deall hyn yn llygad y ffynnon, mae angen i'r cleient fynd i'r afael â hyn a gwella ei sgiliau i ddiwallu anghenion y cyflogwr ac ateb y galw fel y bo angen.

| CANLYNIAD I'R ECONOMI | MESUR RHANBARTHOL | FFYNHONNELL | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi pobl** | Nifer hawlwyr JSA | DWP/NWEO | ↓ | ↓ |
| | Nifer hawlwyr JSA oed 17-24 | DWP/NWEO | ↓ | ↓ |
| | Nifer hawlwyr JSA yn hawlio dros 12 mis | DWP/NWEO | ↓ | ↓ |
| | % poblogaeth oed gweithio sy'n gyflogeidion | ONS/NWEO | ↑ | ↑ |
| | % poblogaeth oed gweithio sy'n hunangyflogedig | ONS/NWEO | ↑ | ↑ |
| | % poblogaeth oed gweithio sy'n anweithgar economaidd ond eisiau gweithio | ONS/NWEO | ↑ | ↑ |
| | Nifer o gartrefi di-waith | WG/StatsWales | ↓ | ↓ |
| | Nifer o gartrefi di-waith gyda plant | WG/StatsWales | ↓ | ↓ |
| | | | | |
| **Cefnogi'r economi** | Nifer o fusnesai Newydd wedi eu creu yng Ngogledd Cymru | WG/StatsWales | ↑ | ↑ |
| | Nifer o fusnesai wedi cau yng Ngogledd Cymru | WG/StatsWales | ↓ | ↓ |
| | Nifer o bobl mewn gwaith llawn amser | WG/StatsWales | ↑ | ↑ |
| | Nifer o ragelnni seiliedig ar waith | WG/StatsWales/NWEO | ↑ | ↓ |
| | Nifer o Brentisiaethau Lefel Uwch (Lefel 4+) | WG/StatsWales/NWEO | ↑ | ↑ |
| | Nifer o Brentisiaethau (Lefel 3) | WG/StatsWales/NWEO | ↑ | ↓ |
| | Nifer o Brentisiaethau Lefel Sylfaen (Lefel 2) | WG/StatsWales/NWEO | ↑ | ↓ |
| | % o fusnesai lleol yn cyflogi 20 neu fwy o bobl | ONS/NWEO | ↑ | → |
| | | | | |
| **Cefnogi'r Rhanbarth** | Nifer o ymholiadau busnes newydd yn y rhanbarth | NWEAB | ↑ | ↑ |
| | Nifer o fuddsoddiadau busnes newydd yn y rhanbarth | NWEAB | ↑ | ↑ |
| | Nifer o fyfyrwyr yn astudio pynciau yn seiliedig ar flaenoriaethau'r rhanbarth (AB) | WG/LLWR | ↑ | ↑ |
| | Nifer o fyfyrwyr yn astudio pynciau yn seiliedig ar flaenoriaethau'r rhanbarth (AU) | HESA | ↑ | → |
| | % poblogaeth oed gweithio gyda NVQ 4+ neu gyfateb | ONS/NWEO | ↑ | ↑ |
| | % poblogaeth oed gweithio heb unrhyw gymwysterau | ONS/NWEO | ↓ | ↓ |
| | Cyfartaledd cyflog blwyddyn | ONS/NWEO | ↑ | ↑ |
| | Cyfartaledd tal yr awr | ONS/NWEO | ↑ | ↑ |

DWP – Department for Work & Pensions / NWEO – North Wales Economic Observatory / ONS – Office for National Statistics / WG – Welsh Government / LLWR – Lifelong Learning Wales Record / HESA – Higher Education Statistics Agency / NWEAB – North Wales Economic Ambition Board

MESUR PERFFORMIAD

| CYF. | ARGYMHELLION | PROSES | TARGED CWBLHAU | PROSES |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Gweithio gyda chyflogwyr, datblygwyr a darparwyr ategol allweddol ar brosiectau trawsnewidiol o fewn y sector ynni megis Wylfa Newydd, Orthios, Parc Gwyddoniaeth Menai, ac eraill, i ddarparu'r cyfleusterau ac arbenigedd angenrheidiol i greu dyhead, ac arfogi pobl leol gyda'r wybodaeth, sgiliau a doniau fel y gallant gael gwaith yn y datblygiadau a chyfleoedd sydd i ddod. Bydd y dull hwn yn cefnogi a hyrwyddo gyrfaoedd lleol, twf economaidd a chymunedol twf ar gyfer y presennol a chenedlaethau i'r dyfodol. | Datblygiadau pellach ar gampws GLIM Llangefni fel canolbwynt technoleg newydd ar gyfer y rhanbarth gyda chyfleusterau peirianneg fodern ar gampws sy'n ychwanegu at y datblygiadau diweddar ar y safle - y Ganolfan Ynni a Chanolfan Adeiladu<br>---<br>Canoli'r ddarpariaeth bresennol o ganolfannau eraill i mewn i'r un canolbwynt rhanbarthol (creu hwb), fydd yn gweld staff presennol yn cael eu trosglwyddo a'u cefnogi gyda datblygiadau sgiliau sector penodol priodol.<br>Recriwtio darlithwyr a hyfforddwyr ychwanegol gyda phrofiad niwclear perthnasol a gwybodaeth, er mwyn diwallu anghenion ac ymateb i dwf - gan gynnwys y Prentisiaid Horizon<br>---<br>Mapio pellach i nodi sut, er nad yw datblygiad Hwb yn dod â chyfleoedd gwaith mawr, bydd yn rhagflaenydd o ddatblygiadau sydd, yn ddarostyngedig i benderfyniadau masnachol, a allai arwain at ddatblygiadau cyfalaf ychwanegol a swyddi sgiliau uchel sylweddol i Ogledd Cymru.<br>Parhau i ddatblygu Rhaglen Sgiliau Niwclear ac Ymchwil Prifysgol Bangor i gefnogi llwybrau sgiliau lefel uwch yn weithredol o fewn Gogledd Cymru. | **Awst 2018**<br>---<br>**Medi 2017**<br>---<br>**Ebril 2017**<br>---<br>**Parhau** | GLLM / NWEAB<br><br>**Prifysgol Bangor** |
| 2. | Gweithio gyda cyflogwyr, datblygwyr a darparwyr cefnogi'r sector gweithgynhyrchu, sydd wedi ei nodi fel sector economaidd allweddol ar gyfer Gogledd Cymru , i ehangu ymhellach a chefnogi datblygiad y cyfleusterau angenrheidiol ac arbenigedd i ysbrydoli ac arfogi pobl leol gyda'r wybodaeth, sgiliau a doniau fel y gallwn ddatblygu ein gweithlu ymhellach.<br>Parhau'n gystadleuol fel rhanbarth gyda chlwstwr o sgiliau lefel o uwch mewn rhai lleoliadau, a chefnogi'r arbenigedd allweddol ar draws y rhanbarth a lleoliadau penodol, megis Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy ac Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam | Cefnogi i gael cymorth ychwanegol a datblygu'r cysyniad yn seiliedig ar angen am Ganolfan Dechnoleg a Sgiliau Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy .<br>Cryfhau a hyrwyddo'r bartneriaeth bresennol rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau rhanbarthol AU ac AB, a phartneriaid yn y sector preifat i ddarparu cyfleuster ar gyfer Gogledd Cymru yn hyrwyddo ac yn cyflenwi hyfforddiant sgiliau lefel uwch a chefnogi technoleg uwch.<br>Datblygu a gweithredu i gynnal a thyfu'r sector allweddol pellach ar gyfer yr economi ranbarthol a chenedlaethol.<br>Gall datblygu'r ganolfan o ragoriaeth hon gryfhau ymhellach y cysylltiadau rhwng busnesau o fewn y sector eang, a darparwyr addysg ar draws y rhanbarth, er mwyn helpu datblygu ymhellach gweithlu sgiliau uwch, ac mae hefyd yn arloesi ac ehangu ein cyflogwyr yn y sector hwn | **I'w gadarnhau** | **Cambria / NWEAB** |
| 3. | **Datblygu aliniad agosach o'r Cynllun Cyflogaeth Sgiliau a Rhanbarthol gyda chylchoedd cynllunio partneriaid a darparwr rhanbarthol, er mwyn helpu i lywio cwricwlwm, adnoddau a gweledigaeth.** | Ymarfer mapio o linellau amser rhanbarthol ar gyfer partneriaid yn y gwaith o ddatblygu cwricwlwm; chynllunio busnes ac adnoddau; ac arferion cynllunio cylchol rhanbarthol er mwyn amseru ymyriadau polisi lleol; i nodi amserlenni priodol ar gyfer mewnbwn ar y cyd i ddatblygiad y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol fydd yn helpu i gyd-lywio cynrychiolaeth sgiliau'r dyfodol o safbwynt cyflogwyr a chyfranogwr. | **Ionawr 2017** | **PSR - pawb** |

| CYF. | ARGYMHELLION | PROSES | TARGED CWBLHAU | PROSES |
|---|---|---|---|---|
| 6. | **Gweithio gyda cyflogwyr rhanbarthol a cyrff cynrychioli cyflogwyr i ddatblygu Pecyn Cymorth "Sgiliau Cyflogadwyedd " a fyddai dyfarnu yn achrediad ar y cyd ar ran darparwyr addysg ranbarthol. Bydd cwblhau'r pecyn cymorth llwyddiannus gan y cyfranogwyr yn eu cynorthwyo i drosglwyddo i'r farchnad lafur a chwrdd â gofynion cyflogwyr y dyfodol o fewn ein a sectorau twf allweddol** | Gweithio gyda darparwyr a busnesau presennol sy'n eiriolwyr brwd o sgiliau cyflogadwyedd yn y rhanbarth i fapio a rhoi sylw at y dyblygu ac anghysondeb o gyflwyno sgiliau cyflogadwyedd. Datblygu dull a sylfaen cyson o ddisgwyliadau rhanbarthol, sydd hefyd yn ychwanegu gwerth a hyrwyddo arbenigedd yn ein sectorau allweddol megis Ynni, Gweithgynhyrchu ac Adeiladu | Ionawr 2017<br>-------------<br>Ebrill 2017 | LIC / BUEGC / PSR<br>---------------<br>BUEGC / PSR |
| 7. | **Gweithio gyda phartneriaid i ystyried cynaladwyedd a pharhad priodol o arolygon farchnad lafur rhanbarthol a chenedlaethol i gasglu safbwyntiau ac anghenion cyflogwyr yn sgil UKCES yn cael eu diddymu i helpu i lywio cynllunio sgiliau yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru.** | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r cyflogwr o gyrff cynrychiadol i nodi pwrpas unigol a dulliau priodol sy'n hyrwyddo parhad i gasglu barn a gofynion cyflogwyr Gogledd Cymru .<br>-----------------------------------------------<br>Datblygu cynnig ar y cyd rhwng partneriaid y BUEGC a chyflogwyr y sector preifat a'r cyrff cynrychioliadol, i geisio cytundeb a chefnogaeth ariannol ar gyfer y gwaith hwn gan ariannu priodol. | Ebrill 2017 | PSR - pawb |
| 8. | **Dod i ddeall effaith a pherthnasedd y themâu trawsbynciol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a'i berthnasedd ac effaith ar y sgiliau ehangach ac agenda cyflogaeth yng Ngogledd Cymru.** | Hyrwyddo sut mae'r Iaith Gymraeg yn ddylanwad allweddol i ddatblygiadau o fewn yr economi ac anghenion cyflogwyr; hyrwyddo buddiannau allweddol, gwerth gweithlu dwyieithog.<br>Integreiddio allbynnau a chamau gweithredu o'r argymhellion presennol yn y Cynllun hwn (Megis ar STEM) i roi cysondeb ac osgoi dyblygu fydd yn hyrwyddo sgiliau iaith perthnasol sydd yn ofynnol o fewn ein heconomi. | Chwefror 2017<br>-------------<br>Medi 2017<br>------------<br>Tachwedd 2016 | BUEGC / PSR / MDA / LEP / Gyrfa Cymru |
| 9. | **Datblygu maniffesto ar gyfer sgiliau gyrfaoedd trawsffiniol fydd yn datblygu asiantaeth gyrfaoedd trawsffiniol i hyrwyddo'r anghenion sgiliau, cyflogaeth ac arbenigedd sy'n mudo rhwng Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr yn ddyddiol mewn perthynas â'r farchnad lafur a'r rheini sy'n astudio a dysgu.** | Adeiladu ar gysylltiadau anffurfiol presennol a rhannu gwybodaeth er mwyn datblygu cyfathrebu a dealltwriaeth y ddwy ochr. Cytuno bod gwerthu'r sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth y coridor M56 a A55 yn ehangach (gwerth economaidd cyfunol fel rhanbarth ar hyn o bryd o £35 biliwn).<br>-----------------------------------------------<br>Nodi potensial ar gyfer asiantaeth gyrfaoedd trawsffiniol sy'n defnyddio ac yn ymestyn y gwasanaeth presennol gan Gyrfa Cymru yn y rhanbarth gyda'i gymar yn Sir Gaer a Cilgwri i hyrwyddo dyheadau a nodwyd yng Nghais Twf y BUEGC ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n cynnwys Sir Gaer a Chilgwri (LEP City Deal). | Parhau<br><br>BUEGC | |
| 10. | **Parhau i gynyddu'r cydweithio a rhannu gwybodaeth gyda ffrydiau gwaith eraill o fewn y BUEGC i hyrwyddo ymagwedd gydlynol rhwng sgiliau a chyflogaeth gyda chadwyni cyflenwi, isadeiledd, buddsoddiadau mewnol, a chysylltiadau trawsffiniol y gellir eu hyrwyddo a'u cyfleu i ddarparwyr addysg a myfyrwyr trwy ddull cyfunol unigol** | Parhau i nodi a hybu meysydd trawsbynciol o waith a chysylltedd i gefnogi'r agenda economaidd rhanbarthol ehangach, a arweiniodd y BUEGC at y 'Cais Twf Gogledd Cymru', sy'n rhoi gwybodaeth allweddol i darparwyr addysg a busnesai am y farchnad lafur ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ehangach a'r perthnasedd iddynt hwy. | Hydref 2016 | PSR - pawb |

| CYF. | ARGYMHELLION | PROSES | TARGED CWBLHAU | PROSES |
|---|---|---|---|---|
| 4. | **Angen datblygu dull sylfaenol cyffredin i froceriaeth sgiliau a chyflogaeth. Yna, yn cael ei ychwanegu at gydag anghenion pwrpasol a gofynion yn cael ei arwain gan y contractwr neu berchennog prosiect ar gyfer amryw o brosiectau gweddnewidiol rhanbarthol perthnasol** | Gan ddefnyddio'r model llwyddiannus presennol o ddatblygiad y Carchar Gogledd Cymru fel y llinell sylfaen o weithgareddau broceriaeth generig , mae angen ei fapio, ychwanegu ac addasu yn ôl yr angen.<br><br>BUEGC i hwyluso digwyddiad ar gyfer pob prosiect trawsnewidiol rhanbarthol presennol ac yn y dyfodol i drafod glasbrint rhanbarthol ar gyfer sefydlu gwaelodlin sgiliau rhanbarthol a broceriaeth cyflogaeth. Model fydd yn cael ei gyflwyno gan bartneriaid allweddol megis Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru , a'r ALl yn arwain ochr yn ochr â 'r BUEGC.<br><br>Lansio cronfa ddata sgiliau ar-lein rhanbarthol sy'n adeiladu ar y blaenorol "Llunio'r Prosiect Dyfodol " i gefnogi gweithwyr rhag dadgomisiynu yn Magnox , i ymestyn ar gyfer yr holl sectorau o fewn Gogledd Cymru fydd yn cefnogi galw drwy gofnodi a chadw sgiliau presennol yn y rhanbarth, denu sgiliau newydd a buddsoddiad, ac yn apelio at y rhai o Ogledd Cymru sydd wedi symud i ffwrdd ar gyfer cyfleoedd perthnasol yn ôl yn lleol. | Rhagfyr 2016<br>------------------<br>Mai 2017<br>------------------<br>Tachwedd 2016<br>------------------ | BUEGC |
| 5. | **Datblygu ymagwedd gyflenwol Gogledd Cymru at STEM fydd yn hwyluso cydlynu, cyfathrebu , ysbrydoli a hyrwyddo cyfle cyfartal, wrth adlewyrchu gydag un llais a neges glir a chefnogi anghenion cyflogwyr, dysgwyr , a darparwyr ar bob lefel.** | Recriwtio a phenodi cydlynydd STEM rhanbarthol i weithio o fewn y BUEGC yn ganolog. Prif gyfrifoldeb fydd i gefnogi a hyrwyddo cydlynu gweithgareddau rhanbarthol STEM e.e. digwyddiadau fel "Codi STEM" gan GLIM. Mae'r prosiect arfaethedig "STEM Gogledd" yn berthnasol i cynulleidfaoedd ar draws y rhanbarth.<br>--------------------------------------------------<br>Gan ddefnyddio'r mapio rhanbarthol presennol a wnaed gan y BUEGC, a'i argymhellion, ymgymryd â sicrhau ansawdd ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â STEM; asesu aliniad a chyfatebolrwydd y ddarpariaeth a gofynion cyflogwyr; ac i weithio gyda phartneriaid i feithrin gallu priodol o iaith Gymraeg yr adnoddau STEM penodol a modelau rôl sy'n cael eu defnyddio yn rhanbarthol.<br>--------------------------------------------------<br>Sefydlu is-grŵp STEM pwrpasol o'r BUEGC i ddeall ac argymell gofynion cyflogwr ynglŷn â llwybrau gweithgareddau sy'n gysylltiedig â STEM a gyrfa, ac yn trosi hyn i weithgareddau a awgrymir ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant i fynd i'r afael â hwy.<br>--------------------------------------------------<br>Cefnogi a hyrwyddo canolfannau STEM rhanbarthol gan ddefnyddio canolfannau rhagoriaeth bresennol ac yn y dyfodol o fewn y rhanbarth, megis Techniquest yn Wrecsam, ac mae'r Parc Gwyddoniaeth Menai yn Ynys Môn fel canolfannau ar gyfer gweithgareddau a datblygiad gyda phartneriaid ehangach i ddod. | Hydref 2016 | PSR - pawb |